

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, LL15 2UP, nos Lun, 16 Ebrill 2018 am 7 pm.

PRESENNOL – Y Cyngorwyr Bob Barton [rhan o'r cyfarfod], David Baker, Tim Faire, Jayne Mayers [Is-gadeirydd], Keith Mouldale, John Pugh [Cadeirydd] ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – dau aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU Y Cyngorwyr Wini Davies [ymrwymiad blaenorol], Moira Edwards [salwch], Medwen Roberts [gwyliau] a Paul Weston [gwyliau].

RHAN 1

425 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cyngorydd John Pugh yng nghyswllt Neuadd Eleanor fel ymddiriedolwr ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair; y Cyngorydd Keith Mouldale fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor.

426 MATERION CYMUNEDOL

426.1 Nwy prif gyflenwad Mae Wales & West Utilities wedi pennu dyfynbris sy'n ddilys am 90 diwrnod o 13 Mawrth 2018. Mae'r cynnydd yn ddibynnol ar dderbyn isafswm o bobl yn derbyn y dyfynbris yn ystod y cyfnod mae'r pris yn ddilys. Mae Mr Darren Millar AC yn fodlon rhoi ei gefnogaeth i'r cynnig i ddod â nwy prif gyflenwad i Lanfair DC. Mae ei staff yn y broses o hwyluso cyfarfod rhwng y Cyngor a Wales & West Utilities.

426.2 Diffibrilyddion Cysylltwyd gydag Adran Tai Cyngor Sir Ddinbych a rhoddwyd cymeradwyaeth i osod diffibrilydd ar eiddo'r Cyngor yng Nghraigfechan. Fodd bynnag, mae'r tenant wedi mynegi pryder am gost y trydan er bod y Cyngor Cymuned wedi neilltuo swm o arian tuag at y gwariant hwn. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i osod mesurydd ar wahân fel bo'r Cyngor Cymuned yn cael anfoneb yn uniongyrchol neu'r Cyngor Sir yn anfon anfoneb am ad-daliad neu ganfod dewis arall.

426.3 Cynllun Cymdogaeth ac Arolwg y Gymuned Cyflwynodd Mr Phil Webb, Trysorydd Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor, drosolwg o ganlyniadau dechreuol yr arolwg cymunedol, gyda chyfathrebu â thrigolion yn uchel iawn. Byddai cylchlythyr i'r ardal gyfan yn cael ei groesawu gan fod pobl yn awyddus i gael gwybod beth sy'n digwydd. Cafwyd cyfradd ymateb o 40% i'r arolwg. Bydd y canlyniadau dechreuol yn cael eu harddangos yn Neuadd Eleanor ar 19 Ebrill rhwng 1 a 6 pm ac ar 21 Ebrill rhwng 10 am a hanner dydd. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Webb am ei adroddiad llafar.

426.4 Diweddariad band eang Disgwylir ateb gan Cadwyn Clwyd ynghylch eu prosiect, ond ymddengys nad yw'r cynllun yn parhau.

427 COFNODION PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

428 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 08/01/18 31/01/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Dywedodd y Cynghorydd Bob Barton y byddai'n fodlon cynorthwyo gyda chodi arian. Trefnir i'r grŵp gyfarfod pan fo prosiectau wedi'u nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Adroddodd y Clerc yr anfonwyd llythyrau i Glybiau Ffermwyr Ifanc Clwyd, Llysfasi, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Rhuthun ar 12/10/17. Ni chafwyd unrhyw ymateb. Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.
356.3 367.1 387.3 04/12/17 08/01/18 31/01/18 19/03/18 16/04/18	Y Gofeb Rhyfel - Plac i goffâu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop. Gofynnwyd am ddyfynbrisiau yn cynnwys glanhau ac ailbaentio'r arysgrifiadau ar y Gofeb Rhyfel. The Mae'r Clerc wedi ymchwilio i enwau aelodau'r llu awyr i'w gosod ar garreg ar wahân ger y Gofeb ond mae angen eu dilysu gan Gofnodion Milwrol yr Awyrlu cyn gofyn am ganiatâd a dyfynbrisiau newydd. Ystyried gosod carreg goffa yn nhir yr eglwys fel dewis arall. Mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau gydag awdurdodau'r eglwys. Mae Pwyllgor yr Eglwys wedi rhoi cymeradwyaeth mewn egwyddor, ond mae'n ofynnol awdurdodi hynny gan yr Archddeon.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Y Clerc - Gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
375.6 06/11/17 04/12/17 31/01/18	Carafan yn Erw Fair Ymwelodd y Swyddog Cynllunio a Gorfodaeth â'r safle ar 07/02/18 ac arsylwi bod y garafan yn parhau yn ei lleoliad y tu allan i'r cwrtil preswyl. Ailadroddwyd y cais i symud y garafan o fewn y cwrtil. Cafodd sicrwydd y byddai'r gweithredu angenrheidiol yn digwydd cyn pen 6 wythnos. Monitro i barhau.
325.2 08/01/18 31/01/18	Dulliau arafu traffig yng Nghraigfechan Y Clerc i holi a yw Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r arwyddion yn hysbysu am derfyn cyflymder ymlaen llaw. Disgwylir derbyn cymeradwyaeth rhywbryd yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19.
395.2 08/01/18 31/01/18 19/03/18	Bolardiau gwynion yng Nghraigfechan Y Clerc i wneud ymholiadau a yw hyn yn cael ei ganiatáu. Y Clerc i barhau i anfon negeseuon atgoffa nes y derbynnir ateb.
399 19/03/18	Asesiad Risg

16/04/18	Y Cyngorwyr John Pugh a Keith Mouldsdale i drefnu hyn. Adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 21 Mai 2018.
----------	---

429 GOHEBIAETH

429.1 Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol [GDPR]. Cyflwynwyd – Copi o restr wirio'r SLCC a'r cyngor ar sut i fynd i'r afael â hyn. Y cam cyntaf yw llunio rhestr o'r data mae'r Cyngor yn ei gadw, o lle y daeth a gyda phwy mae'n cael ei rhannu. Mae hysbysiadau preifatrwydd yn ofynnol ac i'w rhoi yn eu lle ar neu cyn gweithredu GDPR ar 25 Mai 2018. Dylai polisiâu'r Cyngor ynghylch prosesu data a diogelu data gael eu diweddarau/datblygu i adlewyrchu'r gofynion newydd. Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn i GDPR gael ei roi fel eitem agenda y cyfarfod clwstwr nesaf i Glercod a Chadeiryddion Cyngorau Tref a Chymuned. **PENDERFYNWYD** Y dylai'r Clerc lunio rhestr o'r data ym meddiant y Cyngor a llunio hysbysiad preifatrwydd drafft i'w gymeradwyo.

430 CYNLLUNIO

430.1 Cais 20/2017/1156 Adeiladu uned magu lloi newydd yn cynnwys dwy sied fagu, swyddfeydd, adeilad storio a chyfleusterau storio tail a gwaith cysylltiedg yn Genus, Green Park, Llanrhydd. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn cefnogi'r cynnig.

431 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

431.1 Parcio ym Mron y Clwyd, Llanfair DC Mae arwyddion newydd yn cael eu hargraffu i ddangos yr ardal barcio benodol ar gyfer tenantiaid a thrigolion.

431.2 Pont Eyarth E-bost dyddiedig 27 Mawrth gan Uwch Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi diweddariad ar y gwaith ar y bont. Eleni bydd gwaith yn cael ei wneud ar bum coeden o gwmpas y bont gyda'r nod o gael mwy o oleuni'r haul ar y bont i gynorthwyo gyda'r broses sychu. Bydd mwyafrif gwaith ailbwyntio'r bont yn cael ei gwblhau hefyd. Mae'r rhannau lle gwnaed gwaith ailbwyntio'r calch y llynedd eisoes yn gwneud gwahaniaeth gweladwy ac mae'r lleoliadau hyn yn llawer sychach. Bydd buddion y gwelliannau draenio a wyneb y ffordd yn cael eu gwireddu pan fo'r gwaith ailbwyntio'r bont gyfan wedi'i gwblhau. Mae cydweithiwr yn yr adran traffig yn edrych ar y broblem gyda'r arwyddion.

431.3 Wal mynwent yr eglwys, Llanfair D C Adroddwyd – bod y Cadeirydd wedi cynnal asesiad risg ar gyflwr y wal. Mae cerrig wedi symud o'u lle, mae contractwr wedi'u symud i fan diogel a gofynnwyd am ddyfynbrisiau i gyflawni gwaith trwsio'r wal. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn berchen ar y wal ond mae'n gyfrifol am drwsio a chynnal a chadw'r wal, ac mae'r gost yn debygol o fod yn sylweddol ar yr achlysur hwn.

431.4 Biniau sbwriel cyffredinol Adroddwyd – mae dau fin sbwriel dwbl yn yr ardal – y tu allan i'r eglwys yn Llanfair a ger Coleg Llysfasi, Gall Cyngor Sir Ddinbych ddarparu biniau sengl am £250 yr un ynghyd â £50 i'w gosod, biniau dwbl am £375 yr un ynghyd â £50 i'w gosod. Awgrymwyd darparu biniau sengl gyferbyn â lleoliad yr ysgol newydd yn Llanfair, ym Mharc y Llan, Llanfair, ger yr Hen Swyddfa Bost yn Mhentreceilyn a ger yr hysbysfwrdd yng Nghraigfechan. **PENDERFYNWYD** Gofyn i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir i gael cyngor ynghylch y lleoliadau arfaethedig.

431.5 Problemau draenio / llifogydd ym Mhentre Coch

Roedd Rheolwr Asedau a Risigau Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi anfon e-bost ar 13 Ebrill 2018 i'r tiffeddiannwr [yr archwynydd], gyda chopi i'r Clerc, yn darparu diweddariad ar y sefyllfa bresennol. Cynhaliwyd gwiriadau mwy rheolaidd ar y glanhau gwlliau yn y lleoliad ar y cyd gyda'r rheolwr strydlyn wedi'i leoli yn Rhuthun, ond oherwydd eira a rhew efallai na fu hyn mor drwyadl ag y gobeithiwyd. Roedd yr Adran Priffyrdd wedi cael trafferth cael contractwr i wneud y gwaith concriid i'r gwli, ond dylai'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd Ebrill. Y trydydd pwynt oedd y byddai'r Cyngor Sir yn newid siâp y gyffordd fel bo cymaint o ddŵr ag y bo modd yn cael ei wyro oddi wrth yr ardal sy'n tueddu gorlifo. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag ansawdd gwael wyneb y ffordd hefyd ond nid oes dyddiad pendant pryd y gellir gwneud hyn, ond bydd yn cael ei wneud gynted ag y bo contractwr ar gael. Gofynnwyd i'r rheolwr strydlyn ymdrin â'r tyllau yn y ffordd gynted ag y bo modd hefyd. Ymddengys y bydd y mater hwn yn rhywbeth a fydd yn parhau am o leiaf ddwy flynedd. **PENDERFYNWYD** bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr e-bost gan ddatgan y dylid parhau i fonitro'r sefyllfa.

431.6 Pentrecelyn – Hysbysiad Terfyn Cyflymder 30 milltir yr awr parhaol gan Gyngor Sir Ddinbych Gofynnwyd i'r Cyngor Sir ystyried terfyn cyflymder 30 milltir yr awr ar hyd y lôn o'r A525 heibio Fferm Bryn Coch ac eiddo eraill i Bentrecelyn. Mae'r mater hwn gyda'r Pennaeth Priffyrdd ar hyn o bryd.

431.7 Cyffordd yr A525 ar waelod lôn Plas Bedw Dywedodd y Cynghorydd Tim Faire nad oes unrhyw arwydd wrth ddod o Rhuthun i nodi bod troad i'r dde ac y gall fod yn eithaf peryglus troi ar y brif ffordd gan fod ceir yn dod o Rhuthun yn aml yn ceisio goddiweddyd cyn bwlch Nant y Garth. Hefyd adroddodd bod cerrig/creigiau allwthiol yn dal teiars lorïau ar hyd y lôn gul hon, yn enwedig wrth Erw Gam a The Dingle. **PENDERFYNWYD** Gofyn i'r Clerc hysbysu'r Adran Priffyrdd gyda chais i ganfod beth y gellir ei wneud i wella diogelwch ar hyd y ffyrdd hyn.

RHAN 2

432 PENDERFYNWYD eithrio'r Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

433 MATERION ARIANNOL

433.1 Cyflwynwyd [a] Crynodeb o'r Incwm a'r Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2018 [b] Y Llyfr Derbynebaw a Thaliadau ar gyfer 2017-18 a [c] Copi o'r Praesept Dreth Gyngor 2018/19 fel a gymeradwywyd ar 8 Ionawr 2018. Cynghorodd y Clerc mai'r balans yn y banc ar 31 Mawrth 2018 oedd £8884.76 [llai siec am £50 heb glirio] yn y Cyfrif Cymunedol a £1022.96 yn y Cyfrif Busnes. Cyfanswm y cronfeydd sydd ar gael yw £9857.72. Nododd yr aelodau y byddai'r £1630 yn weddill yn y gyllideb costau etholiad ar gyfer 2017/18 yn cael ei gario trosodd. Cynghorodd y Clerc y byddai'n rhaid i'r £8620 wedi'i glustnodi ar gyfer trwsio'r gofeb rhyfel gael ei leihau £4441 i sicrhau bod y Cyngor yn cadw ffigur cronfeydd wrth gefn isafswm o 20% ar gyfer cyfalaf gweithiol [£3786] i fynd â'r Cyngor ymlaen i flwyddyn ariannol 2018/19.

PENDERFYNWYD Cymeradwyodd yr aelodau'r cyfrifon yn unfrydol, ynghyd â'r camau a gynigiwyd i sicrhau bod y Cyngor yn dal ffigur isafswm cronfeydd wrth gefn o 20% ar gyfer cyfalaf gweithiol ar ddechrau blwyddyn ariannol 2018/19.

433.2 Ceisiadau am gymorth ariannol PENDERFYNWYD dyrannu grantiau fel a ganlyn:

£150 Capel Salem Llanfair DC

£150 Capel Ebeneser Graigfechan

433.3 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£152 Aelodaeth Un Llais Cymru

£ 35 Cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

433.4 Diweddariad ar faterion Archwiliad Rhoddwyd dyddiad o 26 Ebrill 2018 i ddanfôn dogfennau i JDH Business Services Ltd ar gyfer archwiliad mewnol 2017/18. Atgoffodd y Clerc yr aelodau bod yr archwilydd mewnol a'r archwilydd allanol yn disgwyl adroddiadau ar faterion yn codi a'r camau gweithredu a gyflwynwyd gan y Cyngor. Dosbarthwyd copïau i'r aelodau cyn y cyfarfod. Derbyniwyd y pecyn cyfrifon blynyddol gan BDO ar 14 Ebrill 2018.

PENDERFYNWYD Cymeradwyodd yr aelodau'r adroddiadau a baratowyd gan y Clerc ar y materion a godwyd gan yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r camau gweithredu a gyflwynwyd gan y Cyngor yn ystod 2017-2018. Cadarnhaodd yr aelodau hefyd eu bod yn cymeradwyo'r cynllun archwiliad mewnol a gyflwynwyd iddynt yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2018.

433.5 Polisi Cronfeydd wrth gefn Cyflwynwyd – papur drafft. **PENDERFYNWYD** Cymeradwyo.

433.6 Cofrestr Asedau Cyflwynwyd – copi wedi'i ddiweddarau o gofrestr 2017-18 **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Gofrestr Asedau fel y'i diwygiwyd ac y byddai'r gynnuau mesur cyflymder yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr gan eu bod wedi eu rhoi i Grŵp Gwyllo Cyflymder Llanfair a Graigfechan.

434 HYFFORDDIANT / CYNADLEDDAU

PENDERFYNWYD Cymeradwyo presenoldeb mewn sesiynau hyfforddiant fel a ganlyn [a] Y Clerc a'r Cynghorydd Keith Mouldsall – sesiwn hyfforddiant Un Llais Cymru ar Ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth, Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol ar 3 Mai 2018 yn yr Wyddgrug [b] Y Cynghorydd Bob Barton – hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol ar 19 Ebrill yn yr Wyddgrug. Cyflwyno ceisiadau am fwrsariau.

435 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

PENDERFYNWYD y byddai'r cyfarfod ar 21 Mai yn dechrau am 7.30pm yn hytrach na 7 pm.

2018 - 21 Mai, 11 Mehefin, 9 Gorffennaf, 10 Medi, 8 Hydref, 12 Tachwedd, 10 Rhagfyr

2019 - 14 Ionawr, 11 Chwefror, 11 Mawrth

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 8.30pm.

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Pentrecelyn nos Lun, 21 Mai 2018 am 7.30 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Bob Barton, David Baker, Wini Davies, Moira Edwards [rhan o'r cyfarfod], Tim Faire, Jayne Mayers, John Pugh, Medwen Roberts [rhan o'r cyfarfod] a Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 5 aelod o'r cyhoedd

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorydd Keith Mouldsdale [salwch]

RHAN 1**436 SYLWADAU'R CADEIRYDD WRTH YMDDEOL**

Cydnabu'r Cynghorydd John Pugh yr ymateb da gan y gymuned ynghylch materion lleol, gyda'r cynllun cymdogaeth yn datblygu'n dda gyda chymorth Mr Steve Whipp ac eraill yn y gymuned ond bod y bwriad arfaethedig i gael nwy prif gyflenwad yn fater i'w ddatrys. Diolchodd i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd ac i'r Clerc am ei hymdrechion.

437 ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AR GYFER 2018/19

[a] Cynigwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Jayne Mayers i'w hethol fel Cadeirydd. Cytunwyd ar hyn.

[b] Cynigiwyd ac eiliwyd y Cynghorwyr David Baker a Paul Weston i'w hethol fel Is Gadeirydd. Gofynnwyd i'r aelodau bleidleisio ar bapur ac yn dilyn hynny cafodd y Cynghorydd David Baker ei ethol fel Is Gadeirydd. Llofnodwyd ffurflenni Datganiad Derbyn Swydd.

438 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd John Pugh yng nghyswllt Neuadd Eleanor fel ymddiriedolwr ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair.

439 MATERION CYMUNEDOL

439.1 Nwy prif gyflenwad PENDERFYNWYD symud y drafodaeth am hyn i Ran 2 oherwydd natur sensitif a chyfrinachol y trafodaethau.

439.2 Diffibrilyddion Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant yn Ysgol Pentrecelyn ar 27 Ebrill 2018 gyda 30 o unigolion yn bresennol. Trefnwyd pedair sesiwn hyd yma a bydd y Cynghorydd Jayne Mayers yn trefnu sesiwn arall gydag Achub Calon y Dyffryn maes o law.

439.3 Cynllun Cymdogaeth ac Arolwg Cymunedol Adroddwyd y dylai'r arolwg cymunedol fod ar gael ymhen chwe wythnos. Yn y cyfamser gosodwyd hysbysfwrdd y tu allan i neuadd y pentref a thrwsiwdd y cloc.

439.4 Diweddariad band eang Dywedodd y Cynghorydd Bob Barton ei fod wedi'i hysbysu am gronfa datblygu cynaliadwy ar gyfer prosiectau ac y byddai'n barod i

frwr ymlaen gyda chais am gyllid. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch grantiau a diweddariad am welliannau i'r gwasanaeth band eang.

440 COFNODION PENDERFYNWYD

[a] Ailgadarnhau cofnodion y Cyfarfod Blynyddol/Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 17 Mai 2017

[b] Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

441 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 08/01/18 31/01/18 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Dywedodd y Cynghorydd Bob Barton y byddai'n fodlon cynorthwyo gyda chodi arian. Manylion cronfa gymunedol Calor Gas fel a ganlyn: https://www.calor.co.uk/communityfund/about-the-fund/
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Adroddodd y Clerc yr anfonwyd llythyrau i Glybiau Ffermwyr Ifanc Clwyd, Llysfasi, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Rhuthun ar 12/10/17. Ni chafwyd unrhyw ymateb. Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.
356.3 367.1 387.3 04/12/17 08/01/18 31/01/18 19/03/18 16/04/18	Y Gofeb Rhyfel - Plac i goffâu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop. Gofynnwyd am ddyfynbrisiau yn cynnwys glanhau ac ailbaentio'r arysgrifiadau ar y Gofeb Rhyfel. The Mae'r Clerc wedi ymchwilio i enwau aelodau'r llw awyr i'w gosod ar garreg ar wahân ger y Gofeb ond mae angen eu dilysu gan Gofnodion Milwrol yr Awyrlu cyn gofyn am ganiatâd a dyfynbrisiau newydd. Ystyried gosod carreg goffa yn nhir yr eglwys fel dewis arall. Mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau gydag awdurdodau'r eglwys. Mae Pwyllgor yr Eglwys wedi rhoi cymeradwyaeth mewn egwyddor, ond mae'n ofynnol awdurdodi hynny gan yr Archddeon.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Y Clerc - Gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
375.6 16/04/18	Carafan yn Erw Fair Monitro i barhau.
325.2 16/04/18	Dulliau arafu traffig yng Nghraigfechan Archebwyd arwyddion yn hysbysu am y terfyn cyflymder ymlaen llawn, a dylent fod yn eu safle erbyn 15 Mehefin 2018.
395.2 16/04/18	Bolardiau gwynion yng Nghraigfechan Y Clerc i wneud ymholiadau a yw hyn yn cael ei ganiatáu. Ateb – bwriedir cynnal archwiliad safle.

431.2 16/04/18 21/05/18	Pont Eyarth Adran Traffig y Cyngor Sir yn edrych ar y problemau gyda'r arwyddion. Cyfeiriwyd cwyn arall at yr Arweinydd.
431.4 16/04/18	Biniau Sbwriel Cyffredinol Aros am gyngor ynghylch lleoliadau addas gan y Cyngor Sir, er enghraifft, nesaf at yr arosfan bws yn Llanfair.
431.5 16/04/18	Problemau draenio / llifogydd ym Mhentre Coch Parhau i fonitro'r sefyllfa.
431.6 16/04/18	Estyniad i'r terfyn cyflymder 30 milltir yr awr ym Mhentrecelyn Cyfeiriwyd y mater at y Pennaeth Priffyrdd.
431.7 16/04/18 21/05/18	Cyffrodd yr A525 – Lôn Plas Gofynnwyd i'r Adran Priffyrdd wella diogelwch. Dylid cael arwydd rhybudd o leiaf ac yn ddelfrydol llinellau gwyn dwbl hefyd.

442 GOHEBIAETH

Adolygiad y Sector Cyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru – Ymateb Un Llais Cymru i'r Panel Adolygu Annibynnol

Cyfuniad o farn cyngorau sy'n aelodau Un Llais Cymru ar draws Cymru yw'r ddogfen 50 tudalen, wedi eu cofnodi'n unigol ac ar y cyd. Gofynnwyd i Gyngorau ystyried pedwar cwestiwn h.y. Beth ddylai cyngorau tref a chymuned fod yn gyfrifol amdanynt? Sut y dylent weithredu? Beth sy'n eu rhwystro rhag cyflawni ar ran eu cymuned leol? a Sut mae cyngorau'r sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol orau? Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ar yr hyn a gyflawnwyd, yr heriau sy'n wynebu'r sector wrth symud ymlaen a'r cyfleoedd a'r gweithredoedd a all gynorthwyo i fowldio cyfeiriad cadarnhaol i'r sector.

Roedd pum thema yn dod i'r amlwg [a] angen hyrwyddo rôl y cyngorau tref a chymuned [b] nid yw'r un patrwm yn gweddu i bawb [c] mae angen cryfhau'r mandad democrataidd [ch] yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer cynyddu capasiti a gallu [staff a chyllid digonol] a [d] parhau i ddatblygu partneriaethau gyda'r awdurdodau unedol, byrddau gwasanaethau lleol a gwirfoddolwyr cymunedol. Mae Un Llais Cymru yn cefnogi'r cyfeiriad arfaethedig cyffredinol – “rydym ni am i'n holl gyngorau fod yn gyngorau gweithgar; yn darparu gwasanaethau cyhoeddus modern, hygyrch o'r ansawdd uchaf gyda'u cymuned. Fodd bynnag, mae angen i'r sector gael y dulliau a'r capasiti ychwanegol i ymdrin â'r heriau o'u blaenau a bod angen cymorth cyllidol i alluogi cyngorau lleol i ymdrin â phosibiliadau trosglwyddo gwasanaethau ac asedau yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.”

Nodwyd cynnwys yr adroddiad a gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr yn diolch i Un Llais Cymru a hefyd fynegi siom nad oedd crynodeb ar gael. Holodd y Cyngorydd Bob Barton am y dyddiad cau ar gyfer anfon materion i'w trafod yng Nghyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru i'w gynnal ar 29 Medi.

443 RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r dogfennau / polisiau a ganlyn:

[a] Archwiliad Data Personol a gedwir gan y Cyngor Cymuned

[b] Hysbysiad Preifatrwydd

[c] Polisi Diogelu Data a Gwybodaeth

[ch] Polisi Cadw a Gwaredu Dogfennau

444 CYNLLUNIO

444.1 Cais 14/2018/0360 Pwll benthyc ar gyfer cloddio am agregau i'w defnyddio ar gyfer gwaith llunio Fferm Wynt Coedwig Clocaenog yn unig. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

444.2 Cais diwygiedig 20/2017/1156 Adeiladu uned magu lloiau newydd yn cynnwys dwy sied magu lloiau, swyddfeydd, adeilad storio a chyfleuster storio tail a gwaith cysylltiedig – Genus, Green Park, Llanrhydd **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

444.3 Carafanau sefydlog yn Nyffryn Clwyd Hysbyswyd y Cyngor Cymuned bod carafan sefydlog wedi ymddangos yn Nhŷ Coch, Graigfechan a gofynnwyd i'r Cyngor wirio a ofynnwyd am ganiatâd cynllunio. Hysbyswyd yr aelodau bod caniatâd cynllunio wedi'i roi i deulu lleol adeiladu dau dŷ ar y safle. **PENDERFYNWYD** cyfeirio gosod y garafan yn ôl at yr Adran Gynllunio am eglurhad.

445 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

445.1 Parcio ym Mron y Clwyd, Llanfair DC Argraffwyd arwyddion newydd i ddangos lle parcio penodol ar gyfer tenantiaid a thrigolion. Nid yw'r arwyddion yn hawdd i'w gweld, fodd bynnag, ac awgrymwyd y dylid gosod arwyddion ychwanegol wrth y fynedfa i Fron y Clwyd.

445.2 Gwasanaethau bws Mae trigolion lleol yn cwyno am anghysondeb y gwasanaeth bws i ac o Graigfechan. Mae'n rhaid gwneud cais i fynd ar neu ddod oddi ar y bws yn Rhuthun, gyda'r canlyniad bod rhai teithwyr yn cael eu gadael. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych am eglurhad sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu.

445.3 Gardd Gymunedol yng Nghraigfechan Hysbyswyd y Cyngor Cymuned bod cynigion i ddatblygu ardal fechan o dir nad oes gan denant y Cyngor ym Maes Hyfryd, Graigfechan, ei heisiau bellach yn berllan neu ardd gymunedol. Mae'r Cyngor Sir yn gweithredu i adnabod grŵp neu unigolion i gymryd cyfrifoldeb am ofalu am y safle. Bydd Emily Reddy, Swyddog Datblygu Cymunedol yn Adran Dai'r Cyngor Sir yn dod i gyfarfod y Cyngor Cymuned ar 11 Mehefin i hysbysu'r aelodau am y datblygiadau.

RHAN 2

446 PENDERFYNWYD eithrio'r Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

447 MATERION ARIANNOL

447.1 Archwiliad Diwedd Blwyddyn – Cyflwynwyd

[a] Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2017-18 Mae angen diwygio neu egluro'r chwe eitem isod –

i] Dylid diwygio'r ffurflen flynyddol i ddangos £9858 ym Mluch 9 [balans yn y banc]

ii] Dylid gwella patrwm y cysoniad banc

iii] Dylai'r Cyngor nodi'r ddeddfwriaeth rymuso a ddefnyddir i wneud taliadau grant a'r taliadau a wneir dan Adran 137

- iv] Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yswiriant cywirdeb digonol
- v] Dylid diwygio'r costau staff ar y ffurflen flynyddol, Blwch 4 costau staff £3730 a Blwch 6 cyfanswm taliadau eraill £8623
- vi] Os oes gan Gynghorwyr ymlyniad gwleidyddol neu eu bod wedi'u cyfethol dylid dangos hynny ar y wefan a dylai'r Cyngor gyhoeddi eu Cofrestr Buddiannau Aelodau ar-lein.

Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi gweithredu i roi'r argymhellion ar waith fel bo angen, a bod swm yr yswiriant cywirdeb yn £250,000. Cymeradwyodd yr aelodau y camau gweithredu.

[b] Cyfrifon Blynyddol

PENDERFYNWYD [a] cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifol 2017-18 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'u diwygio fel yr argymhellwyd gan yr archwilydd mewnol i'w llofnodi gan y Cadeirydd cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol [b] bod y Cyngor o'r farn bod y gwariant Adran 137 yn gymesur gyda'r budd i'r gymuned a [c] bod y Cyngor yn ystyried nad oes ganddo unrhyw ymrwymiad na bwriad i dalu arian rhodd i gyflogeion [tudalen 4 y Ffurflen Flynyddol].

[c] Diwygiadau i'r Datganiad Derbyniadau a Thaliadau 2017-18

PENDERFYNWYD diwygio'r Datganiad Derbyniadau a Thaliadau 2017-18 i ddangos y patrwm cysoniad banc a argymhellwyd gan yr archwilydd mewnol a dangos y ddeddfwriaeth rymuso a ddefnyddiwyd i wneud taliadau grant, yn cynnwys y rhai dan Adran 137.

447.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£20.00 Un Llais Cymru [Y Cynghorydd Bob Barton, hyfforddiant Cyllid, 19 Ebrill 2018]
£151.20 JDH Business Services Ltd [Ffi Archwiliad Mewnol]
£169.38 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu]
£180.00 SLCC [Ffioedd Cynhadledd 16 Mai 2018 – Y Cynghorydd Bob Barton a'r Clerc, Eirwen Godden]

447.3 Ceisiadau am gymorth ariannol PENDERFYNWYD gohirio'r cais gan Bwyllgor Apêl Graigfechan a Phentrecelyn Eisteddfod yr Urdd 2020 [gwahodd Mr John Kerfoot i gyfarfod yn y dyfodol] a gwrthod y cais gan Bobath Cymru [parlys yr ymennydd].

447.4 Adnewyddu Yswiriant Nid yw cwmni yswiriant Zurich yn cynnig cytundebau tymor hir [3 neu 5 mlynedd] ar gyfer yswiriant dan £500. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau i weld a all Zurich leihau'r dyfynbris o £437.17. Rhoddwyd awdurdod i'r Clerc a'r Cadeirydd weithredu – rhaid adnewyddu'r yswiriant erbyn 1 Mehefin.

447.5 Aseiad Risg – Cyflwynwyd – Adroddiad a ddiweddarwyd yn Ebrill 2018 yn dangos risg uchel o ran wal y fynwent. Gweithredwyd i symud cerrig a oedd wedi dod o'u lle i fan diogel tra'n aros am ddyfynbrisiau ar gyfer y gwaith trwsio. Mae'r gost yn debygol o fod yn uchel ac efallai y bydd rhaid cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus am dendrau er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog. Rydym yn aros am ffigur dangosol.

447.6 Trefniadau ar gyfer Adolygiad Blynyddol y Rheoliadau Ariannol, Asesiad Risg a Rheolaethau Mewnol yn enwedig o gofio effaith y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd. **PENDERFYNWYD** gohirio'r mater i gyfarfod yn y dyfodol.

447.7 Cyflog ac Amodau Gwasanaeth y Clerc – Graddfeydd Cyflog newydd ar gyfer 2018-19 i'w gweithredu o 1 Ebrill 2018 **PENDERFYNWYD** gohirio'r mater i gyfarfod yn y dyfodol a bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cynnal yr arfarniad blynyddol yn y cyfamser.

448 NWY PRIF GYFLENWAD

Mae swyddfa Mr Darren Millar AC wedi cynnig dewis o ddau ddyddiad ar gyfer cyfarfod – 15 neu 29 Mehefin. Dywedodd yr aelodau y byddai cyfarfod yn hwyr yn y prynhawn ar 15 Mehefin yn fwyaf cyfleus. Mae'r trafodaethau rhwng Wales and West Utilities a phartïon a diddordeb yn parhau. Hysbyswyd yr aelodau bod yr Arweinydd wedi derbyn neges e-bost gan Wales and West Utilities yn y cyfamser am eu gwasanaethau yn y gymuned. Mae cynlluniau busnes yn cael eu llunio ar gyfer y dyfodol ar hyn o bryd; mae arnynt angen adborth fel y medrant ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl eu hangen yn awr ac i'r cenedlaethau i ddod. Maent yn dymuno cael barn cwsmeriaid ar gael y cydbwysedd yn iawn rhwng buddsoddi i gynnal a gwella gwasanaethau a pharatoi rhwydwaith nwy i'r dyfodol tra'n cadw biliau'n isel.

449 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

2018 - 11 Mehefin, 9 Gorffennaf, 10 Medi, 8 Hydref, 12 Tachwedd,
10 Rhagfyr

2019 - 14 Ionawr, 11 Chwefror, 11 Mawrth

Awgrymwyd ychwanegu eitem adborth/adroddiad o gyfarfodydd/cynadleddau at yr agenda – yr aelodau i anfon crynodeb at y Clerc.

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 9.30pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Pentrecelyn nos Lun, 11 Mehefin 2018 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr David Baker [Is-gadeirydd], Wini Davies, Moira Edwards [Rhan 1 y cyfarfod], Tim Faire, Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdales, John Pugh, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – Dau aelod o'r cyhoedd a'r siaradwyr gwadd Gwenno Owen a Sara Evans.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorydd Medwen Roberts [cyfarfod Llywodraethwyr yn Ysgol Pentrecelyn] ac Emily Reddy, Swyddog Datblygu Cymunedol, Tai Sir Ddinbych [profedigaeth teuluol]. Nodwyd bod y Cynghorydd Bob Barton wedi hysbysu'r Clerc y byddai'n cyrraedd yn hwyr ond nid oedd wedi cyrraedd cyn diwedd y cyfarfod.

RHAN 1

450 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd John Pugh yng nghyswllt Neuadd Eleanor fel ymddiriedolwr ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair ac asiant cais cynllunio 20/2018/0484 a'r Cynghorydd Keith Mouldsdales fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor.

451 MATERION CYMUNEDOL

451.1 Nwy prif gyflenwad Adroddwyd bod [a] trigolion wedi derbyn llythyrau gan Wales & West Utilities [WWU] yn gofyn am flaendal [b] perchennog y tir wedi bod mewn cysylltiad gyda'r ystad i gael caniatâd i newid y llwybr a allai wneud y cynllun yn rhatach [c] WWU wedi derbyn cymeradwyaeth gan y datblygwr i gysylltu'r safle tai newydd i'r rhwydwaith nwy [ch] Adran Addysg Sir Ddinbych mewn cysylltiad gydag WWU o ran yr ysgol newydd a [d] Darren Millar AC wedi cytuno i gyfarfod criw bach o gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned ynghyd â chynrychiolydd o WWU ar 9 Gorffennaf i ddechrau, gyda'r nod o drefnu cyfarfod agored yn cynnwys y gymuned gyfan a holl aelodau'r Cyngor maes o law.

451.2 Apêl Codi Arian Eisteddfod yr Urdd 2020 Cyflwynwyd trosolwg o'r trefniadau codi arian yn lleol gan Gwenno Owen a Sara Evans a'r cyllid sy'n ofynnol i gynnal yr Eisteddfod, sydd oddeutu £2m. Rhoir targed i bob ardal godi arian dros y ddwy flynedd nesaf tuag at yr ŵyl a ystyrir fel yr ŵyl ieuencid fwyaf yn Ewrop. Diolchwyd i Gwenno a Sara am eu mewnbwn a gofynnwyd iddynt anfon deunyddiau hyrwyddo at y Clerc i'w rhoi ar wefan y Cyngor Cymuned. Awgrymwyd ystyried cynnwys swm o arian yn y gyllideb praesept yn ddiweddarach yn y flwyddyn tuag at gostau'r eisteddfod.

452 COFNODION PENDERFYNWYD

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

453 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 08/01/18 31/01/18 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cyngorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdales a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi. Mae'r Cynghorydd Bob Barton yn fodlon cynorthwyo gyda chodi arian. Manylion cronfa gymunedol Calor Gas fel a ganlyn: https://www.calor.co.uk/communityfund/about-the-fund/
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cyngorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.

356.3 367.1 387.3 04/12/17 08/01/18 31/01/18 19/03/18 16/04/18 11/06/18	Y Gofeb Rhyfel - Plac i goffâu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop. Gofynnwyd am ddyfynbrisiau yn cynnwys glanhau ac ailbaentio'r arysgrifiadau ar y Gofeb Rhyfel. The Mae'r Clerc wedi ymchwilio i enwau aelodau'r llw awyr i'w gosod ar garreg ar wahân ger y Gofeb ond mae angen eu dilysu gan Gofnodion Milwrol yr Awyrlu cyn gofyn am ganiatâd a dyfynbrisiau newydd. Ystyried gosod carreg goffa yn nhir yr eglwys fel dewis arall. Mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau gydag awdurdodau'r eglwys. Mae Pwyllgor yr Eglwys wedi rhoi cymeradwyaeth mewn egwyddor, ond mae'n ofynnol awdurdodi hynny gan yr Archdeon. Y Clerc i ddrafftio cais.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Y Clerc - Gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
375.6 16/04/18	Carafan yn Erw Fair Monitro i barhau.
325.2 16/04/18	Dulliau arafu traffig yng Nghraigfechan Archebwyd arwyddion yn hysbysu am y terfyn cyflymder ymlaen llawn, a dylent fod yn eu safle erbyn 15 Mehefin 2018.
395.2 16/04/18	Bolardiau gwynion yng Nghraigfechan Y Clerc i wneud ymholiadau a yw hyn yn cael ei ganiatáu. Ateb – bwriedir cynnal archwiliad safle.
431.2 16/04/18 21/05/18 11/06/18	Pont Eyarth Adran Traffig y Cyngor Sir yn edrych ar y problemau gyda'r arwyddion. Cyfeiriwyd cwyn arall at yr Arweinydd. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd ynghylch yr angen am arwyddion o ochr Llanfair yr A525.
431.4 16/04/18	Biniau Sbwriel Cyffredinol Aros am gyngor ynghylch lleoliadau addas gan y Cyngor Sir, er enghraifft, nesaf at yr arosfan bws yn Llanfair. Ffefrir bin dwbl gyferbyn â'r ysgol newydd. Pob bin i gynnwys fflapiau.
431.5 16/04/18	Problemau draenio / llifogydd ym Mhentre Coch Parhau i fonitro'r sefyllfa.
431.6 16/04/18	Estyniad i'r terfyn cyflymder 30 milltir yr awr ym Mhentrecelyn Cyfeiriwyd y mater at y Pennaeth Priffyrdd.
431.7 16/04/18 21/05/18	Cyffordd yr A525 – Lôn Plas Bedw Gofynnwyd i'r Adran Priffyrdd wella diogelwch. Dylid cael arwydd rhybudd o leiaf ac yn ddelfrydol llinellau gwyn dwbl hefyd.
445.1 21/05/18 11/06/18	Parcio ym Mron y Clwyd, Llanfair D C Gofynnwyd am arwyddion ychwanegol ac mae hyn wedi'i weithredu.
445.2	Gwasanaethau Bws Graigfechan

21/05/18	Gofynnwyd i Gyngor Sir Ddinbych egluro sut mae'r cynllun ar gais yn gweithio. Anfonwyd yr ymholiad at yr Adran Priffyrdd ar 30/05/18.
----------	---

454 GOHEBIAETH

454.1 Band eang E-bost dyddiedig 20 Mai 2018 gan Swyddog Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r cynlluniau isod yn agored i fusnesau fferm, sef, Mynediad i Fand Eang Cymru, Cynllun Taleb Cysylltiad Uwch Gyflym a'r Cynllun Taleb Band Eang Gigabit. Dewis arall yw Cynllun Partneriaeth Ffibr Cymuned Openreach sy'n cynnwys criw o drigolion a busnesau yn llunio contract gydag Openreach i ddatblygu rhwydwaith yn eu cymuned a chodi arian i dalu unrhyw ddiffyg. Bydd rhaglen fuddsoddi newydd Llywodraeth Cymru yn dechrau'n ddiweddarach eleni i ymdrin ag eiddo wnaeth fethu'r prosiect cyntaf yn cynnwys eiddo'n cael band eang cyflym iawn [cyflymder lawrlwytho o 30Mbps o leiaf] dros gyfnod o ddwy flynedd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir yn parhau i aros am gyhoeddiad Llywodraeth Cymru. Dylai unrhyw fusnes sy'n dymuno cael cefnogaeth gysylltu gydag Adran Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Cynghorydd Bob Barton ganolbwyntio ar ardaloedd nad oes ganddynt gysylltiad da a'r argaeledd i fusnesau ffermio a busnesau gwledig eraill.

454.2 Cynllun Cymdogaeth E-bost dyddiedig 30 Mai 2018 gan Swyddog Datblygu Cymunedol – Gwella Busnes a Moderneiddio Cyngor Sir Ddinbych gyda gwahoddiad i asesu'r effaith ar les o ran y cynllun. Mae adnodd asesu'r effaith ar les ar gael ar-lein ar gyfer prosiectau Cyngor yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd, ond mae'r Cyngor Sir yn sylweddoli y gallai fod o fudd enfawr i gynghorau dinas, tref a chymuned yn ogystal â grwpiau cymunedol. Bydd yn cynorthwyo i werthuso effaith syniad, polisi, adroddiad neu brosiect newydd ar lesiant. Bydd yn cefnogi ffyrdd i ychwanegu at y cyfraniad y gall cymunedau ei wneud i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

PENDERFYNWYD derbyn y cynnig i asesu effaith y cynllun ar les, yn ddarostyngedig i ddiweddarau'r cynllun cymdogaeth. Mae canlyniadau'r arolwg cymunedol a ariannwyd gan Cadwyn ac a gomisiynwyd gan Bwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor i'w rhyddhau yn fuan. Pa'n fo'r rhain ar gael gall y grŵp cynllun cymdogaeth gyfarfod i ystyried beth ddylid ei gynnwys yn y cynllun.

454.3 Rheolau Sefydlog Enghreifftiol Newydd gan Gymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol (NALC) – wedi eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers 2013. Bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol pan fydd y Cyngor yn adolygu ei Reolau Sefydlog maes o law. Nodwyd y cynnwys gan yr aelodau.

454.4 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Cyfarfodydd a fynychwyd

[a] Adroddwyd bod y Cynghorydd Bob Barton wedi mynd i ddigwyddiad rhanbarthol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar 9 Mai 2018 ond ei fod yn aros am ragor o wybodaeth er mwyn llunio adroddiad terfynol. Yn y cyfamser mae wedi gwneud cais i gyflwyno cynnig yng Nghyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio Adran 147 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i ddiwygio'r amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiad blynyddol y Panel. Teimlai'r

aelodau na allent gytuno gyda chais y Cynghorydd Barton a'i bod yn rhy hwyr beth bynnag i gyflwyno cynnig gan fod y dyddiad cau, 31 Mai, wedi bod.

[b] Gofynnodd y Clerc am ganiatâd i fynd i Gyfarfod Cangen SLCC ar 20 Mehefin a Chynhadledd Ranbarthol SLCC ar 5 Medi 2018 yn Llandudno. Cymeradwywyd.

455 CYNLLUNIO

455.1 Cais 20/2018/0484 Adeiladu estyniad llawr gwaelod i annedd – Branas, Llanfair DC. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

455.2 Cais 20/2018/0448 Adeiladu byngalo ar wahân – tir yn Clover Bank, Ffordd Eyarth i Ffordd Haymakers, Llanfair DC. Adroddwyd bod rhai trigolion wedi mynegi pryderon. **PENDERFYNWYD** bod yr ymateb i'r Adran Gynllunio yn tynnu sylw at bryderon ynghylch diogelwch ffyrdd a gwelededd ac y gobeithir y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn sicrhau bod y ffordd yn cael ei lledu yr holl ffordd ar hyd y rhan hon o'r lôn.

455.3 Cais 20/2018/0505 Manylion y mynediad i gerbydau a gwaith priffyrdd cysylltiedig a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 10 caniatâd cynllunio 20/2016/1137/PF – Tir i'r gorllewin o Ffordd Wreccsam, Llanfair DC. Nododd yr aelodau dderbyn y manylion.

455.4 Carafan sefydlog yn Nhŷ Coch, Graigfechan E-bost dyddiedig 23 Mai 2018 gan Swyddog Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn datgan os yw'r garafan yn cael ei defnyddio fel llety dros dro tra'n adeiladu tŷ newydd, yna byddai'n debygol o ddod dan hawliau datblygu a ganiateir. Yr amod yw, unwaith y bo'r tŷ newydd wedi'i gwblhau, bydd angen rhoi'r gorau i ddefnyddio'r garafan fel lle byw. Os yw'r garafan y tu allan i ffin yr ardd [e.e. ar gae cyfagos] byddai'n rhaid symud y garafan oddi ar y safle unwaith y bo'r tŷ wedi'i orffen. Fodd bynnag, os yw'r garafan yn ardal yr ardd neu ar y dreif, gellid gadael y garafan yn ei lle cyn belled ag y bo'n cael ei defnyddio at ddibenion cysylltiedig â'r prif dŷ ac nid fel annedd ar wahân neu ddefnydd masnachol [e.e. rhentu fel llety gwyliau]. Nododd yr aelodau gynnwys yr e-bost.

455.5 Aseiad ac Archwiliadau Mannau Agored Sir Ddinbych Mae'r ddogfen hon yn dogfennu'r fethodoleg, canfyddiadau'r archwiliad ac aseiad ac yn darparu argymhellion ar gyfer hysbysu dull o sicrhau cyfleusterau gwagle agored mewn datblygiadau tai newydd. Nododd yr aelodau gynnwys y ddogfen.

456 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

456.1 Neuadd yr Eglwys, Llanfair DC Adroddwyd y gofynnwyd am ddyfynbrisiau.

456.2 Gardd Gymunedol yng Nghraigfechan Adroddwyd bod y Cynghorydd Bob Barton wedi bod mewn digwyddiad gardd gymunedol diweddar yn Llanbedr DC yn cael ei asesu ar gyfer Gwobr Gymunedol Baner Werdd. Nododd yr aelodau y byddai'r Cynghorydd Barton yn fodlon cynorthwyo gyda gardd gymunedol Graigfechan a chynorthwyo i ennill statws Baner Werdd unwaith y bo'r ardd wedi'i sefydlu.

RHAN 2

457 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

458 MATERION ARIANNOL

458.1 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn: £417.51 Zurich Municipal [tâl yswiriant]. Nodwyd bod y Clerc wedi negodi gostyngiad o £19.66.

£140.04 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu]

458.2 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD [a] gohirio'r ceisiadau gan Gapel Salem a Phwyllgor Apêl yr Urdd 2020 tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn a [b] rhoi grant o £150 i Eglwys Llanfair tuag at gostau torri glaswellt.

458.3 Cyflogau ac Amodau Gwasanaeth y Clerc – Cyfraddau Cyflog Newydd ar gyfer 2018-19 i'w cyflwyno o 1 Ebrill 2018 Adroddwyd bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi cynnal yr arfarniad blynyddol ar 4 Mehefin 2018 ac wedi dod i'r casgliad nad oedd unrhyw broblem gyda gallu'r Clerc i gyflawni'r rôl i safon uchel. Hefyd cydnabuwyd bod y Clerc yn treulio nifer o oriau yn gwneud y gwaith yn wirfoddol yn rheolaidd, y tu hwnt i'r oriau y telir amdanynt. Mae darpariaeth yng nghyllideb 2018-19 i gwmpasu cynyddu oriau taledig y Clerc o 25 i 28 y mis [300 i 336 y flwyddyn, Pwynt 25] a chynyddu'r cyflog o £11.74 i £12.01 yr awr yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Byddai hyn yn costio £4180 o'r £4230 a glustnodwyd eisoes.

PENDERFYNWYD [a] cynyddu oriau a chyflog y Clerc i 28 awr y mis a £12.01 yr awr yn ôl eu trefn o 1 Ebrill 2018 a [b] diwygio'r archeb sefydlog i'r darparydd cyflogres yn unol â hynny.

459 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2018 - 9 Gorffennaf, 10 Medi, 8 Hydref, 12 Tachwedd, 10 Rhagfyr

2019 - 14 Ionawr, 11 Chwefror, 11 Mawrth

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 8.15pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd LL15 2UP nos Lun, 9 Gorffennaf 2018 am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Bob Barton, Wini Davies, Moira Edwards, Tim Faire, Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdales, John Pugh, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – Un aelod o'r cyhoedd a'r siaradwr gwadd Emily Reddy, Swyddog Datblygu Cymunedol, Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ddinbych.

YMDDIHEURIADAU Y Cyngorwyr David Baker, Is-gadeirydd [ymrwymiadau gwaith] a Medwen Roberts [ymrwymiad blaenorol].

RHAN 1

460 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cyngorydd Tim Faire [cais cynllunio 20/2018/587 fel yr ymgeisydd]; y Cyngorydd Jayne Mayers [cais cynllunio 20/2018/0624 fel yr ymgeisydd; y Cyngorydd John Pugh yng nghyswllt Neuadd Eleanor fel ymddiriedolwr ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair ac asiant cais cynllunio 20/2018/0484 a'r Cyngorydd Keith Mouldsdale fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor.

461 MATERION CYMUNEDOL

461.1 Nwy prif gyflenwad Adroddwyd y cynhaliwyd cyfarfod ddydd Llun, 9 Gorffennaf 2018 rhwng Darren Millar AC, cynrychiolydd Wales & West Utilities [WWU], Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych a chriw bach o gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned [y Cyngorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], David Baker [Is-gadeirydd], John Pugh a'r Clerc, Eirwen Godden]. Pwrpas y cyfarfod oedd trafod y cynnydd o ran dod â nwy prif gyflenwad i bentref Llanfair. Rhoddodd Nigel Winnan [WWU] drosolwg o'r costau, yr anawsterau peirianeg [croesi'r ffrwd], grantiau sydd ar gael a chynlluniau cyllido neu fenthyciadau cost isel i leihau'r costau i breswylwyr y tai. Rhaid i bawb â diddordeb ymrwymo cyn y gellir gwneud rhagor o gynnydd.

Pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod yn cynnwys [a] WWU i ailgyfrifo'r costau a'u hanfon i'r Cyngor Cymuned [trwy'r Clerc] a Chyngor Sir Ddinbych [trwy'r Arweinydd] [b] Darren Millar AC i gysylltu gyda Pure ynghylch amserlenni cytundebau gwerthu a'u bwriadau yn ogystal â Chyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cynefin [c] cynnal digwyddiad cymunedol i ddangos y cynllun terfynol, yr arbedion o'i gymharu â thanwyddau eraill a'r cyllid sydd ar gael i gwsmeriaid cymwys i leihau costau gosod pibell nwy. Ni chytunwyd ar y rôl arweiniol hyd yma.

461.2 Diffibrilydd yng Nghraigfechan Adroddodd y Cadeirydd bod y diffibrilydd wedi'i osod ar wal allanol tafarn y Three Pigeons. Mae hyn oherwydd bod un o'r trigolion yn byw yn un o'r byngalos pensynwyr yn anfodlon cael yr offer ar yr eiddo. Serch hynny, bydd Tai Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad tuag at gostau'r trydanwr. Bwriedir cael arwyddion dwyieithog gan Achub Calon y Dyffryn yn fuan a bwriedir cynnal digwyddiad hyfforddiant yn Llanfair yn y dyfodol agos.

461.3 Cylchlythyr Cymunedol Adroddodd y Cyngorydd Keith Mouldsdale bod yr arolwg cymunedol diweddar wedi tynnu sylw am yr angen am gylchlythyr cymunedol er mwyn gwella'r cyfathrebu ledled yr ardal. Dengys arolwg diweddar ymhlith cyngorau tref a chymuned yn ardal Clwyd bod naw cyngor sydd eisoes yn cynhyrchu neu'n bwriadu cynhyrchu cylchlythyr chwarterol yn y dyfodol agos. Mae ychydig yn cynnig gwagle hysbysebu i fusnesau lleol i gynorthwyo gyda'r costau ac mae gwirfoddolwyr yn danfon copi i bob aelwyd lle bynnag y bo'n bosibl. Er enghraifft, cynhyrchir Llanferres News & Views gan grŵp cymunedol lleol, wedi'i ariannu'n rhannol gan y Cyngor Cymuned. Dywedodd y Cyngorydd Barton fod posibilrwydd bod grantiau ar gael ar gyfer sefydlu cylchlythyr. Awgrymodd y Cyngorydd Mouldsdale mai'r ffordd ymlaen, fel y cam cyntaf, yw i bwyllgor rheoli neuadd y pentref drafod y dewisiadau/cyfleoedd. Mae'r Cyngorydd Mouldsdale a'r

Clerc wedi trefnu mynd i ddigwyddiad hyfforddiant Gwefannau/Technoleg Gwybodaeth/Cyfathrebu ar 24 Gorffennaf 2018.

462 COFNODION PENDERFYNWYD

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

463 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 08/01/18 31/01/18 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi. Mae'r Cynghorydd Bob Barton yn fodlon cynorthwyo gyda chodi arian. Manylion cronfa gymunedol Calor Gas fel a ganlyn: https://www.calor.co.uk/communityfund/about-the-fund/
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.
356.3 367.1 387.3 04/12/17 08/01/18 31/01/18 19/03/18 16/04/18 11/06/18	Y Gofeb Rhyfel - Plac i goffâu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop. Gofynnwyd am ddyfynbrisiau yn cynnwys glanhau ac ailbaentio'r arysgrifiadau ar y Gofeb Rhyfel. Mae'r Clerc wedi ymchwilio i enwau aelodau'r llu awyr i'w gosod ar garreg ar wahân ger y Gofeb ond mae angen eu dilysu gan Gofnodion Milwrol yr Awyrlu cyn gofyn am ganiatâd a dyfynbrisiau newydd. Ystyried gosod carreg goffa yn nhir yr eglwys fel dewis arall. Mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau gydag awdurdodau'r eglwys. Mae Pwyllgor yr Eglwys wedi rhoi cymeradwyaeth mewn egwyddor, ond mae'n ofynnol awdurdodi hynny gan yr Archdeon. Y Clerc i ddrafftio cais.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Y Clerc - Gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
375.6 16/04/18	Carafan yn Erw Fair Monitro i barhau.
325.2 16/04/18 11/06/18	Dulliau arafu traffig yng Nghraigfechan Archebwyd arwyddion yn hysbysu am y terfyn cyflymder ymlaen llaw, a dylent fod yn eu safle erbyn 15 Mehefin 2018. E-bost dyddiedig 04/07/18 – Adran Priffyrdd yn cymryd camau gweithredu dilynol gyda'r contractwr.
395.2 16/04/18	Bolardiau gwynion yng Nghraigfechan Y Clerc i wneud ymholiadau a yw hyn yn cael ei ganiatáu. E-bost dyddiedig 04/07/18 – nid yw'r Adran Priffyrdd yn bwriadu

	gweithredu ynghylch y mater hwn gan nad yw'r bolardiau'n creu rhwystr na phroblem diogelwch ffyrdd.
431.2 16/04/18 21/05/18 11/06/18 09/07/18	Pont Eyarth Adran Traffig y Cyngor Sir yn edrych ar y problemau gyda'r arwyddion. Cyfeiriwyd cwyn arall at yr Arweinydd. Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd ynghylch yr angen am arwyddion o ochr Llanfair yr A525. Mae'r arwyddion yn parhau i fod yn annigonol – cyfeirio'r mater at Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych.
431.4 16/04/18 11/06/18	Biniau Sbwriel Cyffredinol Mae'r Adran Priffyrdd yn cytuno gyda'r lleoliadau arfaethedig – cylchfan Parc y Llan, Llanfair; Bron y Clwyd ger yr arosfan bws gyferbyn â'r ysgol newydd yn Llanfair; Yr Hen Swyddfa Bost, Pentrecelyn a nesaf at y gysgodfan bws/hysbysfwrdd yng Nghraigfechan. Ffebrir bin dwbl gyferbyn â'r ysgol newydd. Pob bin i gynnwys fflapiau. Mae'r gost yn debygol o fod oddeutu £1,525.
431.5 16/04/18	Problemau draenio / llifogydd ym Mhentre Coch Parhau i fonitro'r sefyllfa.
431.6 16/04/18	Estyniad i'r terfyn cyflymder 30 milltir yr awr ym Mhentrecelyn Cyfeiriwyd y mater at y Pennaeth Priffyrdd.
431.7 16/04/18 21/05/18 09/07/18	Cyffordd yr A525 – Lôn Plas Bedw Gofynnwyd i'r Adran Priffyrdd wella diogelwch. Dylid cael arwydd rhybudd o leiaf ac yn ddelfrydol llinellau gwyn dwbl hefyd. Bwriedir cyfeirio'r mater at Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych.
445.2 21/05/18	Gwasanaethau Bws Graigfechan Gofynnwyd i Gyngor Sir Ddinbych egluro sut mae'r cynllun ar gais yn gweithio. Anfonwyd yr ymholiad at yr Adran Priffyrdd ar 30/05/18. Mae hyn yn effeithio ar ymwelwyr a thrigolion.
451.2 11/06/18	Apêl Cyllid Eisteddfod yr Urdd 2020 Gofynnwyd am ddeunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer gwefan y Cyngor. Yr aelodau i ystyried rhoi cyllid fel rhan o'r broses praesept yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
454.1 09/07/18	Band eang Mynegodd y Cynghorydd Barton bryder bod y gwaith ar restrau diffiniol i drigolion wedi dod i ben. Roedd o'r farn bod angen i'r Llywodraeth roi grantiau i drigolion yn ogystal â busnesau.
454.2 11/06/18	Cynllun Cymdogaeth – y grŵp i gyfarfod ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r arolwg cymunedol.

464 GOHEBIAETH

464.1 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol E-bost dyddiedig 18/06/18 ynghylch y gofyniad i gyhoeddi datganiad y taliadau a wnaed i aelodau erbyn 30 Medi bob blwyddyn ynghyd â llenwi a dychwelyd ffurflen i'r Panel. Nodwyd.

Cytunodd yr aelodau y dylid gwneud taliadau unwaith y flwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn.

464.2 Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Cyffredin Un Llais Cymru 11 Gorffennaf 2018 Nodwyd.

464.3 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Cyfarfodydd a fynychwyd

Adroddodd y Clerc ei bod wedi mynychu cyfarfod cangen SLCC yn Nhreffynnon ar 20/06/18. Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn parhau i fod yn uchel ar yr agenda a bydd yn rhan o raglen y Gynhadledd Ranbarthol i'w chynnal ar 5 Medi 2018. Materion eraill i'w trafod yw'r lwfansau i aelodau a newidiadau ariannol arfaethedig.

465 CYNLLUNIO

465.1 Cais 20/2018/0505 Manylion y mynediad i gerbydau a gwaith priffyrdd cysylltiedig a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 10 caniatâd cynllunio cod 20/2016/1137/PF – Tir i'r gorllewin o Ffordd Wrecsam, Llanfair DC. Dosbarthwyd gwybodaeth i'r aelodau ac yn dilyn hynny anfonwyd ymateb i'r Adran Gynllunio i ddweud bod y Cyngor wedi edrych ar y cais. Yr unig sylw oedd y dylid symud safle newydd yr arwydd 30 milltir yr awr ymhellach ar hyd yr A525 tuag at Rhuthun gan ei fod yn rhy agos at y gyffordd newydd. Cyfeiriwyd y mater at yr Adran Priffyrdd gan yr Adran Gynllunio, sydd yn ei dro wedi gofyn am fanylion lle y dymunir lleoli'r arwydd. **PENDERFYNWYD** hysbysu'r Adran Gynllunio y dylid gosod yr arwydd ar ochr Rhuthun y fynedfa i Bryn Mair ar yr A525.

465.2 Cais 20/2018/0518 Gosod 4 caban glampio, gosod tanc septig a gwaith cysylltiedig ar dir nesaf at Tŷ Famau, Llanfair DC. Dosbarthwyd gwybodaeth i'r aelodau ac yn dilyn hynny anfonwyd ymateb i'r Adran Gynllunio i ddweud bod y Cyngor yn cefnogi'r cais yn llwyr. Mae wedi ei ddylunio'n dda ac mae'n dangos mentergarwch gan deulu ifanc lleol. Roedd yr aelodau'n cymeradwyo'r gweithredu hwn.

465.3 Cais 20/2018/0587 Adeiladu estyniad i'r annedd i ddarparu llety anecs ym Mhlas Bedw, Pentrecelyn, Rhuthun. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

465.4 Cais 20/2018/0624 Adeiladu estyniad i du ôl yr annedd a gwaith allanol cysylltiedig ym Mhennant, Pentrecelyn, Rhuthun. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

465.5 Cais 20/2018/0615 Adeiladu estyniad unllawr i'r tu ôl, adeiladu balconi/canopi yn y tu blaen ac addasiadau i'r to yn Islwyn, Pentrecelyn, Rhuthun. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

465.6 Ysgol newydd Llanfair DC Adroddwyd bod trigolion wedi cwyno wrth Gynghorwyr am weithwyr yn dechrau ynghynt na'r oriau a nodwyd a'u bod yn gadael generadur ymlaen dros nos. Awgrymwyd anfon llythyr at y contractwr i'w atgoffa am gadw at y Cytundeb Llygredd. Ni ddylid bod unrhyw darfu o'r safle y tu hwnt i'r amseroedd hyn – 8 am – 6 pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac 8 am – 1 pm ar ddydd Sadwrn. Mae hyn yn golygu dim injan yn rhedeg, na generadur ymlaen, y tu allan i'r oriau hyn.

466 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

466.1 Wal yr Eglwys, Llanfair DC Adroddwyd y gofynnwyd am ddyfynbrisau ond bod rhai materion sy'n galw am eglurhad pellach. Gan fod y gost yn debygol o fod rhwng £3,000 - £10,000 bydd yn ofynnol i'r Cyngor roi o leiaf dair wythnos o rybudd i'r cyhoedd am ei fwriad i gyflawni'r gwaith [Rheol Sefydlog ar Gontractau paragraff 24.1]. Byddai hysbysiadau'n cael eu gosod ar y tair hysbysfwrdd a gwefan y Cyngor. Nodwyd.

466.2 Gerddi Cymunedol Siaradwr gwadd, Emily Reddy, Swyddog Datblygu Cymunedol, Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych. Mae darn bach o dir, rhan o ardd yn flaenorol, wedi dod ar gael ger byngalos y pensynwyr yng Nghraigfechan. Os trosglwyddir y darn o dir i grŵp cymunedol neu'r Cyngor Cymuned, bydd rhaid i rywun fod yn gyfrifol am edrych ar ei ôl. Mae'n debyg o ran maint i ddarn o dir yn Llanbedr lle mae'r gwaith cynnal a chadw wedi'i gadw i'r isafswm, er bod dyfrio yn medru bod yn broblem. Mae cynllun cynnal a chadw lefel isel yn hanfodol. Cynigiodd Emily gwblhau cais grant i gael cyllid. Cytunwyd y byddai Emily yn ysgrifennu at drigolion yng Nghraigfechan i holi beth oeddynt yn ei ddymuno ac yna adrodd yn ôl wrth y Cyngor Cymuned maes o law. Yn y cyfamser byddai'n trefnu i'r darn o dir gael ei dacluso. Diolchodd y Cadeirydd i Emily am ei mewnbwn.

RHAN 2

467 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

468 MATERION ARIANNOL

468.1 Cyflwynwyd [a] Crynodeb o'r Incwm a'r Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2018 a [b] Y Llyfr Derbynebaw a Thaliadau am yr un cyfnod.

PENDERFYNWYD [a] cymeradwyo'r dogfennau a [b] nad oes angen penodi Is-bwyllgor Cyllid.

468.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:
£107.40 Planhigion/Blodau ar gyfer y bocsys blodau. Ad-daliad i'r Cynghorydd Moira Edwards [y gyllideb ar gyfer planhigion haf a gaeaf i'w gosod ar £100 a £50 yn ôl eu trefn]
£422.57 Treuliau'r Clerc [dosbarthwyd copi i'r aelodau]
£ 29.43 Cyngor Tref Rhuthun [costau rhannu car y Clerc ar gyfer 16/05/18 a 20/06/18]
£ 4.70 Cyngor Tref Dinbych [costau rhannu car y Clerc ar 20/06/18]

468.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

468.4 Diweddariad ar y broses Archwilio Allanol Adroddwyd bod y ffurflen flynyddol a'r dogfennau cefnogol wedi'u hanfon i BDO ar 13 Mehefin 2018. Derbyniwyd rhestr o bwyntiau i'w hegluro ar 15 Mehefin, yn benodol, cadarnhau'r costau staffio, copïau o'r cofnodion yn cymeradwyo'r cynnydd yn yr oriau a weithir a'r dyfarniad cyflog, copi o lythyr ymrwymiad yr archwilydd mewnol a thystiolaeth am y camau gweithredu yng nghyswllt materion a godwyd yn flaenorol. Anfonwyd ateb ar 15 Mehefin. Cadarnhaodd y Clerc bod y Cadeirydd wedi'i hysbysu trwy gydol y broses. Mae BDO bellach wedi cadarnhau bod y gwaith archwilio wedi'i gwblhau ac yn cael ei adolygu gan reolwr.

469 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2018 - 10 Medi, 8 Hydref, 12 Tachwedd, 10 Rhagfyr
2019 – 14 Ionawr, 11 Chwefror, 11 Mawrth

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 8.45pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd LL15 2UP nos Lun, 10 Medi 2018 am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr David Baker [Is-gadeirydd], Bob Barton, Wini Davies, Moira Edwards, Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdale, John Pugh ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 7 aelod o'r cyhoedd a'r siaradwr gwadd Mr Ben Wilcox-Jones, Uwch Beiriannydd, Cyngor Sir Ddinbych.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorwyr Tim Faire [ymrwymiad blaenorol] a Paul Weston [salwch].

RHAN 1

470 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd John Pugh yng nghyswllt Neuadd Eleanor fel ymddiriedolwr ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair; y Cynghorydd Keith Mouldsdale fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor a'r Cynghorydd Moira Edwards yng nghyswllt cais cynllunio 20/2018/0650.

471 MATERION CYMUNEDOL

471.1 Ysgol Newydd Llanfair DC Mae'r gwaith adeiladu'r ysgol newydd yn bwrw ymlaen yn dda a disgwylir cwblhau'r gwaith erbyn haf 2019. Cynhelir seremoni llofnodi panel ar 13 Medi 2018 ar safle'r ysgol newydd i ddynodi'r camau terfynol y panelu insiwleiddio strwythuredig yn yr ysgol newydd. Adroddwyd bod trigolion yn byw ger y safle adeiladu wedi cwyno am sŵn yn cael ei achosi gan generadur wedi ei adael ymlaen yn ystod y nos. Cynghorir trigolion i ddilyn gweithdrefn gwynion y Cyngor Sir fel y gellir cymryd camau i fonitro'r lefelau sŵn. Roedd un o'r trigolion wedi holi am beth fyddai'n digwydd i adeilad a thir yr hen ysgol. Cynghorwyd yr aelodau nad oedd hwn yn fater i'w drafod ar hyn o bryd nes bo perchnogaeth y safle'n hysbys.

471.2 Nwy prif gyflenwad Mae Mr Darren Millar AC yn parhau i ddarparu cymorth gyda'r broses o ddod â nwy prif gyflenwad i Lanfair. Mae'r trafodaethau'n parhau rhwng yr holl bartïon â diddordeb, yn cynnwys casglu mwy o fynegiadau o ddiddordeb/ymrwymiadau gan wahanol sefydliadau.

471.3 Diffibrilydd yng Nghraigfechan Mae'r diffibrilydd wedi'i osod ar wal allanol tafarn y Three Pigeons, gyda gwasanaeth trydanwr yn costio £173.16. Disgwylir y bydd Tai Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad tuag at y gost. Gellir prynu arwyddion dwyieithog am £35 + TAW.

471.4 Cylchlythyr Cymunedol Adroddwyd bod yr astudiaeth a gomisiynwyd gan Bwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor wedi'i chwblhau, a bod y canlyniadau i'w trafod gan y Pwyllgor Rheoli ar 12/09/18. Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn cael eu rhoi ar wefan neuadd y pentref yn fuan. Awgrymwyd cynnal un cyfarfod cymunedol i drafod syniadau/diddordebau'r holl bentrefi yn ardal y Cyngor Cymuned gan na fyddai cyfarfodydd ar wahân o fudd i gydlyniad cymunedol.

472 COFNODION PENDERFYNWYD

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

473 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.
356.3 367.1 387.3 10/09/18	Y Gofeb Rhyfel - Plac i goffâu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop. Gofynnwyd am ddyfynbrisiau yn cynnwys glanhau ac ailbaentio'r arysgrifiadau ar y Gofeb Rhyfel. Gellid bod angen dilysu enwau aelodau'r llw awyr gan Gofnodion Milwrol yr Awyrlu cyn gofyn am ganiatâd a dyfynbrisiau newydd. Mae Pwyllgor yr Eglwys yn ffafrio lleoliad yn yr eglwys yn hytrach na'r tu allan ger y giat.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Y Clerc - Gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
375.6 16/04/18	Carafan yn Erw Fair Monitro i barhau.
325.2 10/09/18	Dulliau arafu traffig yng Nghraigfechan Adroddwyd bod arwyddion yn hysbysu am y terfyn cyflymder ymlaen llaw wedi'u gosod.
431.2 10/09/18	Pont Eyarth Mae'r arwyddion cyfyngiad pwysau wrth ddod at pentref Llanfair o Wrecsam ar yr A525 ac o Bwllglas yn annigonol ac mae'r Cyngor Sir yn edrych arnynt eto. Dosbarthwyd adroddiad cynnydd ynghylch y gwaith ar y bont i'r aelodau. Petai'r gwaith trwsio cerrig arch y bont yn llwyddiannus bydd Cyngor Sir Ddinbych yn monitro'r bont am rai

	blynyddoedd i sicrhau bod yr arch yn parhau'n un darn. Unwaith y bo'r broses wedi'i chwblhau bydd y cyfyngiad pwysau yn cael ei ddiddymu.
431.4 16/04/18 11/06/18 10/09/18	Biniau Sbwriel Cyffredinol Mae'r Adran Priffyrdd yn cytuno gyda'r lleoliadau arfaethedig – cylchfan Parc y Llan, Llanfair; Bron y Clwyd ger yr arosfan bws gyferbyn â'r ysgol newydd yn Llanfair; Yr Hen Swyddfa Bost, Pentrecelyn a nesaf at y gysgodfan bws/hysbysfwrdd yng Nghraigfechan. Ffefrir bin dwbl gyferbyn â'r ysgol newydd. Pob bin i gynnwys fflapiau. Mae'r gost yn debygol o fod oddeutu £1,525 ond nid ydynt mewn stoc ar hyn o bryd.
431.5 16/04/18	Problemau draenio / llifogydd ym Mhentre Coch Parhau i fonitro'r sefyllfa.
431.6 16/04/18	Estyniad i'r terfyn cyflymder 30 milltir yr awr ym Mhentreceelyn Cyfeiriwyd y mater at y Pennaeth Priffyrdd.
431.7 10/09/18	Cyffordd yr A525 – Lôn Plas Bedw Cais am arwydd newydd wedi'i ychwanegu at y rhaglen waith i'w chyflawni cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd Uwch Beiriannydd yn ystyried y mater gyda'r cerrig ymwithiol ar y lôn i benderfynu a oedd angen gwneud gwaith adferol.
445.2 10/09/18	Gwasanaethau Bws Graigfechan Rhoddwyd hysbysiad am y gwasanaethau ar hysbysfwrdd y Cyngor yng Nghraigfechan.
451.2 11/06/18	Apêl Cyllid Eisteddfod yr Urdd 2020 Yr aelodau i ystyried rhoi cyllid fel rhan o'r broses praesept yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
454.1 09/07/18 10/09/18	Band eang Mynegodd y Cyngorydd Barton bryder bod y gwaith ar restrau diffiniol i drigolion wedi dod i ben. Roedd o'r farn bod angen i'r Llywodraeth roi grantiau i drigolion yn ogystal â busnesau. Cyfeiriodd y Cyngorydd Barton at adroddiad gan Mr Darren Millar ynghylch rhaglen newydd.
454.2 11/06/18	Cynllun Cymdogaeth – y grŵp i gyfarfod ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r arolwg cymunedol.
476.3 10/09/18	Gardd Gymunedol Graigfechan Y safle i'w lefel a'i glirio ac ymgynghori gyda'r gymuned ehangach ynghylch y defnydd posibl yn y dyfodol maes o law.

474 GOHEBIAETH Cyflwynwyd

474.1 Damwain awyren yr Ail Ryfel Byd, Cofeb Llanfair DC [a] Llythyr dyddiedig 14/07/18 gan breswlydd o'r farn y dylai cofeb i ddynion yr awyrlu fod mewn lleoliad amlwg ac agored yn y pentref, un ai nesaf at neu ar y Gofeb Rhyfel rhestredig Gradd 2, neu o bosibl y tu mewn i giat y fynwent ond nid y tu mewn i'r eglwys. [b] Negeseuon e-bost dyddiedig 12/06/18 a 30/08/18 oddi wrth Gadeirydd Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo Eglwys Llanfair yn datgan mai'r lle gorau ar gyfer plac fyddai yn y Capel Coffa, gan awgrymu bod y Cyngor Cymuned yn comisiynu darluniadau, dyfynbrisiau ac yn cael caniatâd gan yr Awyrlu/Y Weinyddiaeth Amddiffyn cyn y gellir cyflwyno cais am Alluedd.

Mae'r sefyllfa'n gymhleth. Mae angen caniatâd gan sawl corff cyn y gellir bwrw ymlaen, ac mae'n amheus a ellir ychwanegu enwau aelodau'r awyrlu ar y Gofeb Rhyfel gan nad oeddynt o'r ardal hon.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd David Baker yn trafod y mater gyda Mr John Harrop.

474.2 Astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd Mesurau Rheoli Archwilio Mewnol Neges e-bost dyddiedig 06/08/18 ynghylch y Cyngor Cymuned yn cymryd rhan yn astudiaeth 2018. Roedd y Clerc wedi ateb yr holiadur ac anfon y dogfennau y gofynnwyd amdanynt. **PENDERFYNWYD** anfon llythyr cwyno at Swyddfa Archwilio Cymru, gyda chopi i Un Llais Cymru, yn mynegi pryder am y terfyn amser byr iawn a roddwyd i gwblhau'r dasg.

474.3 Diweddariad ar yr Adolygiad Cyngorau Tref a Chymuned Adroddwyd – bod

y Panel Adolygu Annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru y llynedd i adolygu dyfodol cyngorau tref a chymuned wedi cyhoeddi ei ganfyddiadau amlinellol a'i argymhellion drafft. Mae'r rhain yn cynnwys: [a] cyngorau lleol ym mhob ardal gyda chapasiti a gallu addas [b] pob clerc i feddu ar gymhwyster proffesiynol a dylai CiLCA fod yr isafswm disgwylidig [c] pecyn hyfforddiant craidd gorfodol i'r holl gynghorwyr fel gofyniad derbyn y swydd, ac ailadrodd hyn yn rheolaidd. Bydd y Panel yn mireinio ei adroddiad yn awr, cyn ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Hydref. Nodwyd.

474.4 Ymddeoliad Cynghorydd Neges e-bost dyddiedig 07/08/18 oddi wrth Medwen Roberts yn ymddiswyddo, yn weithredol ar unwaith. Anfonwyd llythyr yn diolch iddi am ei chyfraniad a'i gwasanaeth i'r Cyngor Cymuned. **PENDERFYNWYD** – hysbysebu'r swydd wag yn unol â'r gweithdrefnau arferol.

474.5 Hysbysiad Gorffen Archwiliad Llythyr dyddiedig 13/08/18 oddi wrth BDO yn datgan bod yr archwiliad am y flwyddyn 31/03/18 wedi'i gwblhau. Nid oedd unrhyw faterion wedi dod i'w sylw a oedd yn galw am gyhoeddi adroddiad materion yn codi ar wahân. Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod y ffurflen flynyddol wedi'i chymeradwyo. Rhoddwyd y ffurflen flynyddol a'r hysbysiad gorffen archwiliad yn hysbysfyrdau ac ar wefan y Cyngor o 6 Medi 2018. **PENDERFYNWYD** derbyn penderfyniad BDO.

474.6 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Cyfarfodydd a fynychwyd 24/07/18 Hyfforddiant Un Llais Cymru – Technoleg Gwybodaeth / Gwefannau / Cyfryngau Cymdeithasol yng Nghoedpoeth – gwahanol ffyrdd o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gysylltu gyda thrigolion a gwella ymgysylltu cymunedol.

05/09/18 Cynhadledd Ranbarthol SLCC yn Llandudno – roedd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys Yswiriant [Gwirfoddolwyr], digwyddiadau Cymorth Cynllunio Cymru, Lwfansau Aelodau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth. [Cafodd y ffurflen ar gyfer 2017-18 ei chwblhau a'i hanfon at y Panel a'i rhoi ar wefan y Cyngor ym mis Awst. Mae pob lwfans yn drethadwy ac eithrio costau teithio a chynhaliadau. Rhaid i'r holl lwfansau trethadwy gael eu talu gan ddefnyddio gwasanaeth cyflogres o Ebrill 2018. Bydd darparwyd cyflogres y Cyngor yn codi ffi o £5 yr aelod]. Atgoffwyd

yr aelodau bod rhaid hysbysu'r Clerc yn ysgrifenedig os nad oedd unrhyw un yn dymuno hawlio'r lwfans.

29/09/18 Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru – cyflwynwyd y cynigion ar yr agenda er gwybodaeth. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo bod y Cynghorydd Bob Barton yn [a] mynd i Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru cyn belled ag y bo'r tri Cyngor Cymuned arall [Llanbedr, Llandegla a Llanferres] yn cytuno i rannu'r gost o £95 gyda Llanfair. Dywedodd y Cynghorydd Barton na fyddai'n hawlio costau teithio; [b] yn adrodd wrth y cyfarfod bod Cyngor Cymuned Llanfair DC o'r farn na ddylai ffioedd aelodaeth Un Llais Cymru gynyddu mwy na 3.5% ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20.

475 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

PENDERFYNWYD Cadarnhau'r ymatebion a anfonwyd i'r Adran Gynllunio fel a ganlyn:

475.1 Cais 20/2018/0540 Newid defnydd safle carafanau teithiol trwy osod 10 stiwdio gwyliau, gosod pecyn trin carthffosiaeth a gwaith cysylltiedig ar dir yn nhafarn y Three Pigeons, Graigfechan. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r fenter gan y byddai o fudd i dwristiaeth ac yn cynorthwyo i ddiogelu dyfodol y dafarn yn y pentref.

475.2 Cais 20/2018/0650 Manylion deunyddiau i'w defnyddio wrth adeiladu arwynebau allanol yn cynnwys yr is-orsaf drydan arfaethedig a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 14 caniatâd cynllunio 20/2016/1137 – tir i'r gorllewin o Ffordd Wrecsam, Llanfair DC. Cyflwynodd y Cyngor Cymuned y sylwadau a ganlyn:

[a] Waliau allanol – mae nifer o dai â cherrig ar eu waliau wrth y safle. Felly, dylai'r tai ar hyd yr A525 gydweddu'n well. Codwyd hyn mewn cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor a'r Prif Swyddog Cynllunio a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2016. Roedd Cynghorwyr dan yr argraff bod y datblygwr wedi awgrymu cerrig ar y blaen.

[b] Is-orsaf – mae hyn yn cysylltu gydag amod rhif 5, gan gyfeirio'n benodol at y wal gerrig i'w hadeiladu ar hyd ffin yr ardal gadwraeth y tu ôl i Barnfold/Crossways. Rhaid adeiladu'r wal hon cyn lleoli'r is-orsaf. Ymddengys bod trafodaeth mewn cyfarfod pwyllgor cynllunio y dylai'r is-orsaf gael ei hamgylchynu gan gerrig a'i hintegreiddio i'r wal derfyn i adlewyrchu defnyddio deunyddiau yn unedig a chyson ar hyd ffin yr ardal gadwriaeth. Byddai hyn yn cynorthwyo i leihau unrhyw sŵn o'r is-orsaf i eiddo gerllaw.

I gloi, rhaid ystyried sicrhau bod adeiladwaith a gorffeniad y tai ar hyd yr A525 a'i is-orsaf yn briodol ac yn cyd-fynd â'r ardal gadwraeth.

475.3 Cais 20/2018/0696 Adeiladu estyniadau, ailfodelu a rhoi to newydd ar yr annedd sy'n bodoli eisoes ac adeiladu garej wedi'i suddo i'r tir yn rhannol ac adleoli'r fynedfa i gerbydau yn Hirdir, Pentrecelyn. Mae'r prosiect yn dangos arloesedd dylunio a bydd yn cyfoethogi'r ardal. Mae gan yr adeilad sy'n bodoli estyniad o'r 1980au sy'n ddiflas a difflach. Byddai ceisio newid y strwythurau sy'n bodoli eisoes yn ddrud. A ystyriwyd dymchwel ac adeiladu gyda deunyddiau newydd? Bydd y dyluniad newydd, yn defnyddio deunyddiau lleol a thraddodiadol er mwyn ymdoddi i'r

ardal amgylchynol ac yn cyfoethogi'r golygfeydd ar draws o'r hen dollffordd. Mae hwn yn deulu lleol sy'n dod â sgiliau y mae eu hangen a theulu ifanc i'r ardal.

475.4 Cais 20/2018/0727 Amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio 20/2017/0819 i ganiatâu diwygio'r cynlluniau a'r dogfennau yng nghyswllt yr ysgol arfaethedig ar dir yr eglwys gyferbyn â Bron y Clwyd, Llanfair DC. Mynegwyd pryder am y basgedi gwifrau dal cerrig mewn ardaloedd y mae'r plant yn medru mynd iddynt gan y gallent achosi anaf gan eu bod yn finïog a heb eu gwarchod. Dylid ystyried eu gorchuddio lle bo tebygolrwydd o berygl i blant.

PENDERFYNWYD Anfon ymatebion i'r Adran Gynllunio fel a ganlyn:

475.5 Cais 20/2018/0792 Newid adeilad gwledig nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach yn annedd, gosod tanc septig newydd, addasu'r fynedfa i gerbydau, adeiladu porth ceir ar wahân a gwaith cysylltiedig – adeilad allanol, Garreg Lwyd, Pentrecelyn. Mae Cyngor Llanfair DC yn cefnogi'r cais yn llwyr. Mae'r cynllun arfaethedig, er yn dynn o ran y safle, yn mynd i wella'r casgliad o adeiladu a chyfoethogi'r amgylchedd i'r eiddo sy'n bodoli eisoes. Mae hefyd yn cadw'r grŵp o adeiladu a oedd yn un fferm ar un adeg. Byddai'r cais arfaethedig yn arbed adeilad a'r grwpïad.

475.6 Cais 20/2018/0802 Manylion draenio dŵr budr ac arwyneb yn unol ag amod 13 cais cynllunio 20/2016/1137/PF – tir i'r gorllewin o Ffordd Wrecsam, Llanfair DC.

Mae'r dogfennau a gyflwynwyd yn anodd i'w deall, mae'r berthynas rhwng y dogfennau'n aneglur, ac mae cyfeiriadau coll at rifau tyllau archwilio yn yr adroddiadau draenio. Mae'n annhebygol y byddai unrhyw un ac eithrio peiriannydd draenio profiadol yn medru deall y cynigion a'r dyluniad.

Mae angen ymdrin â dyluniad y datblygiad tai newydd yng nghyd-destun is-ardal system ddraenio dŵr arwyneb Llanfair DC. Rhaid i'r dylunio ar gyfer y dŵr arwyneb ystyried yr effaith y bydd yr ysgol newydd yn ei gael ar y datblygiad tai arfaethedig. Tra bod dyluniad draenio'r dŵr arwyneb (3789 - EW41 A – Adroddiad Strategaeth Draenio tudalen 1-46x) yn ddigonol a chymwys ar gyfer y safle tai ar ei ben ei hun, wrth ei ystyried yng nghyd-destun yr is-ddalgylch, ni fydd yn ddigonol i atal llifogydd.

WaterCo fu'n gyfrifol am ddyluniad dechreuol y safle tai yn 2016 yn ogystal â dyluniad yr ysgol newydd. Mewn achosion storm, bydd llif ychwanegol yn y rhwydwaith dŵr arwyneb o'r ysgol newydd. Mae'r dyluniad yn darparu tanc cadw fel, pan fo storm yn digwydd, bydd uchafswm o 5 litr yr eiliad yn pasio ymlaen. Byddai llifau llai yn mynd i'r rhwydwaith dŵr arwyneb. Yn achos glawiad mwy arwyddocaol byddai'r llif yma o 5 litr yr eiliaid yn parhau yn y rhwydwaith am 10 awr yn dilyn digwyddiad storm 1 ymhob 30 mlynedd neu am 20 awr ar gyfer storm 1 ymhob 100 mlynedd ar sail y tanciau cadw a ddarperir yn yr ysgol. Mae peth gwaith uwchraddio i'r draeniad priffyrdd y tu allan i'r ysgol i'w wneud hefyd, yn cynnwys cadw dŵr yn y bibell, a bydd hyn yn arwain at fwy o ddŵr yn mynd i mewn i'r system dŵr arwyneb yn ystod digwyddiadau glawiad nag a oedd wedi digwydd yn y flaenorol.

Nodwyd bod dyluniad y system draenio dŵr arwyneb ar gyfer safle'r ysgol newydd wedi'i seilio ar amcangyfrif y dŵr ffo oddi ar y safle tir glas. Mae gan hyn beth cyfyngiadau o ran dŵr wedi'i ei gadw ar y safle ac yn suddo i'r tir ac mae'n dybiaeth

optimistaidd. Dim ond ar ôl cwblhau datblygiad yr ysgol y bydd yn amlwg pa effaith mae'r ysgol yn ei chael ar y rhwydwaith dŵr arwyneb.

Bydd y llifau o'r ysgol a'r briffordd yn ogystal â cysylltiadau sy'n bodoli eisoes i'r system dŵr arwyneb yn llifo ymlaen. Bydd y llif yn mynd trwy'r rhwydwaith dŵr arwyneb sy'n bodoli eisoes yn cynnwys y pibellau dargyfeirio arfaethedig yn y safle tai newydd a bydd yn mynd i dwll archwilio nesaf at y system dŵr arwyneb y cyfeirir ato fel twll archwilio S1 ar ddarluniad 3789-EW02 gan Bingham Rawlings Partnership dyddiedig 9/11/2017.

Mae draeniad dŵr arwyneb y safle tai yn cynnig darparu tanc cadw gyda 'Hydrobrake' yn cyfyngu ym mhen gogleddol y datblygiad, Byddai'r tanc cadw hefyd arllwys i dwll archwilio S1 y bwriedir gosod dyfais 'Hydrobrake' arno gyda gallu cyfyngu o 6.581 litr yr eiliad.

Yr effaith fyddai, pan fod stormydd yn creu llifau dŵr arwyneb o fwy na 6.581 litr yr eiliad yn digwydd, byddai'r dŵr gormodol yn cael ei ddal yn y tanc cadw. Fel y nodwyd yn flaenorol, gellid disgwyl llifau o'r maint yma heb ystyried cyfraniad y safle tai newydd, gan yr ysgol, draeniad cysylltiedig o'r briffordd ac o'r cysylltiadau presennol yn y pentref. Byddai hyn yn golygu nad oedd unrhyw gapasiti ychwanegol ar gyfer llif oddi ar y safle yn uwch na'r hyn a gyfrifwyd o'r ysgol a'r pentref o'r tai a ffyrdd y safle newydd. Felly mae'r system dŵr arwyneb a'r Hydrobrake yn y safle datblygiad newydd yn debygol o gael ei oresgyn yn rheolaidd, gan achosi llifogydd. Nodir bod yr adroddiad draenio yn nodi y byddai digwyddiadau eithriadol yn arwain at lifogydd yng ngogledd y safle. Canlyniad dyluniad annigonol fyddai llifogydd ar y safle yn y pen gogleddol, i'r tai, y llwybr cyhoeddus, y coetir yn is i lawr a'r A525 ac yna gorlifo'r caeau ar draws y ffordd lle mae'r ffosydd yn cael trafferth ymdopi gyda'r llifau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Tynnwyd lluniau yn ystod stormydd diweddar. Byddai'r Cyngor Cymuned yn cwestiynu gallu'r system dŵr arwyneb yn is na'r safle yn y pentref i allu ymdopi gyda'r datblygiad fel y mae'r dyluniad cyfredol. Mae'r caeau i'r dwyrain o'r A525 yn cael eu gorlifo'n rheolaidd yn ystod pyliau gwlyb.

Nodir bod Adran 185, Deddf Diwydiant Dŵr mewn llythyr gan Dŵr Cymru yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y dylunydd, Cadarn Consulting Engineers, a fydd yn parhau'n gyfrifol am gyflawnder a chywirdeb y dyluniad.

Dylai Cyngor Sir Ddinbych ofyn a yw'r dylunydd wedi'i argyhoeddi na fydd llifogydd yn cael ei waethygu gan y datblygiad tai arfaethedig a bod dyluniad y system dŵr arwyneb yn ddigonol i ymdopi gyda stormydd, o gofio effaith yr ysgol newydd a'i ddyluniad a fydd yn bodoli pan fo'r datblygiad yn cael ei adeiladu. Mae Nodyn Cyngor Technegol Cyngor Sir Ddinbych yn ei gwneud yn ofynnol nad yw unrhyw ddatblygiad yn gwaethygu llifogydd. O gofio i ba raddau y bu caledu safleoedd caeau glaswellt yn flaenorol o ran yr ysgol, a'r datblygiad tai arfaethedig, ymddengys y byddai'n briodol i sefydlu capasiti'r rhwydwaith draenio dŵr arwyneb islaw'r datblygiad tai newydd fel y gellir diwygio'r dyluniad er mwyn osgoi llifogydd. Byddai hyn yn cynnwys ymchwilio i gapasiti'r allanfa yng ngogledd y safle tai a'r cyrsiau dŵr y tu hwnt i hynny. Gallai fod yn angenrheidiol ystyried creu tanciau cadw dŵr storm gyda chapasiti mwy.

Hefyd gallai fod yn berthnasol ystyried yr effaith ehangach ymhellach i lawr y dyffryn o ran buddsoddiadau a chynllunio ar gyfer llifogydd.

Pwynt arall yw yr ymddengys bod peth halogi'r draen dŵr arwyneb. Mae'n amlwg ym mhwl dal S29 ac ymddengys ei fod yn dod o'r ochr uchaf i'r safle. Roedd arwyddion amlwg o ddŵr llwyd yn y pwll dal presennol ac ymhellach i lawr yn y cwrs dŵr agored ym mhen gogleddol y safle. Dylid ymchwilio i a chywiro hyn.

Gwneir y sylwadau heb ragfarnu ac mewn ewyllys dda i sicrhau bod yr ystyriaethau'n ddigonol i sicrhau osgoi gwaethygu llifogydd. Y Cyngor Cymuned i ofyn am ymateb i'r pryderon a fynegwyd.

476 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

476.1 Siaradwr Gwadd – Mr Ben Wilcox-Jones, Uwch Beiriannydd, Cyngor Sir Ddinbych Cyfeiriwyd at gyfarfod rhwng swyddogion Priffyrdd a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 24 Awst 2018 i drafod mynediad i gerbydau a gwaith priffyrdd cysylltiedig yng nghyswllt y datblygiad tai newydd [cais cynllunio 20/2018/0505]. Roedd y Cyngor Cymuned wedi mynegi y byddai'n well ganddynt i'r arwydd 30 milltir yr awr gael ei osod ar ochr Rhuthun y fynedfa i Bryn Mair ar yr A525. Yn ystod y cyfarfod cytunodd y Cyngorwyr Cymuned bod yr arwydd yn dderbyniol yn y lleoliad arfaethedig gyferbyn â'r llwybr ar berimedr y datblygiad arfaethedig.

Cydnabu Mr Ben Wilcox-Jones bod goryrru wedi bod yn broblem am nifer o flynyddoedd a defnyddiwyd astudiaethau/ymarferion mesur cyflymder i dynnu sylw at a nodi'r problemau. Esboniodd bod rhaid i'r Cyngor Sir ddefnyddio arferion a methodoleg cofnodi safonol i gynhyrchu tystiolaeth er mwyn cael cyllid ar gyfer gwelliannau. Mae camerâu cyflymder sefydlog yn ddrud iawn ac awgrymwyd ei bod yn well cydweithio gyda'r heddlu, gan ddefnyddio sylw yn y wasg lle bynnag y bo modd. Mae'r heddlu'n barod i ystyried gostwng y terfyn cyflymder ar Nant y Garth i 40 milltir yr awr. [Ers y cyfarfod mae Gan Bwyll wedi cydnabod bod angen mwy o waith gorfodaeth ym mhentref Llanfair ac wedi cytuno i gynnal hyn yn y dyfodol gyda motobeic]. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Wilcox-Jones am ei gyfraniad i'r cyfarfod.

476.2 Wal yr Eglwys, Llanfair DC Derbyniwyd dau ddyfynbris hyd yma a disgwylir derbyn trydydd dyfynbris yn fuan.

477 RHEOLAU SEFYDLOG

PENDERFYNWYD bod y cynigion i ychwanegu'r cymalau isod yn cael eu gohirio heb drafodaeth tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor –

“1.7 Bydd cyfraniadau neu areithiau gan gynghorydd yn ymwneud â'r cynnig sy'n cael ei drafod yn unig ac ni fydd yn hwy na 3 munud heb ganiatâd cadeirydd y cyfarfod.

1.8 Ni fydd cyfarfod yn goresgyn cyfnod o 2 awr.”

RHAN 2

478 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

479 MATERION ARIANNOL

479.1 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:
£ 60.00 Un Llais Cymru [Presenolde y Cynghorydd K Mouldale a'r Clerc yn y cwrs Technoleg Gwybodaeth / Gwefannau / Cyfryngau Cymdeithasol ar 24/07/18]
£ 10.80 Y Cynghorydd K Mouldale [costau teithio i fynd i'r cwrs ar 24/07/18]
£ 90.00 SLCC [Presenoldeb y Clerc yn y seminar hyfforddiant rhanbarthol ar 05/09/18]
£384.96 Sandra Williams [Costau cyfieithu – cyfarfodydd Ebrill/Mai/Mehefin]
£ 16.50 Y Cynghorydd J Mayers [ad-daliad am brynu blodau a cherdyn – M Roberts]

479.2 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD gohirio penderfyni ar y ceisiadau isod i'r cyfarfod ym mis Ionawr neu Chwefror -
[a] Homestart Sir Ddinbych [cefnogaeth i gynorthwyo teuluoedd i greu bywydau gwella ar gyfer eu plant]
[b] Nyrsys Marie Curie [cefnogaeth i wasanaethau lleol]

479.3 Adolygu Polisi Cyflwynwyd – Diwygiadau i'r Rheoliadau Ariannol, yr Aseiad Risg a'r Rheolaethau Mewnol
PENDERFYNWYD cymeradwyo'r diwygiadau a ganlyn
[a] Rheoliadau Ariannol – Adran 3A Rheoli'r Gyllideb – newid y gofyniad am ddatganiad o fisol i chwarterol
[b] Aseiad Risg a Rheolaethau Mewnol – ychwanegu adran newydd ar y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

480 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2018 - 8 Hydref, 12 Tachwedd, 10 Rhagfyr
2019 - 14 Ionawr, 11 Chwefror, 11 Mawrth

Cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 9.15pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfair nos Lun, 8 Hydref 2018 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Bob Barton, Tim Faire, Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldale, John Pugh, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 6 aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorwyr David Baker [Is-gadeirydd] [ymrwymiad blaenorol] a Moira Edwards [ymrwymiad blaenorol]

RHAN 1

481 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cyngorydd John Pugh yng nghyswllt Neuadd Eleanor fel ymddiriedolwr ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair; a'r Cyngorydd Keith Mouldale fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor

482 MATERION CYMUNEDOL

482.1 Ysgol Newydd Llanfair DC Mae'r cynllun yn rhan o gynigion Band A y Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Mae'r gwaith gosod y slab concriid a'r blociau wedi'i gwblhau. Dechreuodd y gwaith gosod y paneli strwythurol wedi'u hinswleiddio ddechrau mis Medi. Cynhaliwyd seremoni llofnodi panel ar 13 Medi i ddynodi adeiladu'r prif adeilad, gyda disgyblion, staff, cynrychiolwyr Esbogaeth Llanellwyr, Aelodau Lleol a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn bresennol. Mae gosod y paneli strwythurol yn bwrw ymlaen yn dda a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau tuag at ddiwedd Hydref. Yn dilyn cwblhau'r gwaith yma bydd y to a'r ffenestri'n cael eu gosod yn eu lle i wneud yr adeilad yn wrth-ddŵr yn barod ar gyfer y gwaith mecanyddol, trydanol a mewanol. Rhagwelir y bydd yr ysgol eglwys ddwyieithog newydd yn agor yn nhymer yr haf 2019.

Codwyd cwestiwn eto ynghylch defnydd adeilad a thir yr hen ysgol yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD anfon llythyr at y Cyngor Sir yn holi am bolisi a strategaeth yr awdurdod lleol ar y mater gan gyfeirio at adroddiad yr astudiaeth [482.3 isod] sy'n dangos y byddai trigolion lleol yn hoffi i'r safle gael ei ddefnyddio ar gyfer tai fforddiadwy.

482.2 Nwy prif gyflenwad Mae Mr Darren Millar AC yn parhau i ddarparu cymorth gyda'r broses o ddod â nwy prif gyflenwad i Lanfair. Mae'r trafodaethau'n parhau rhwng yr holl bartion â diddordeb, yn cynnwys casglu mwy o fynegiadau o ddiddordeb/ymrwymadau gan wahanol sefydliadau.

482.3 Canlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb / Cynllun Cymunedol / Cylchlythyr Cymunedol Cyflwynwyd – copi terfynol yr astudiaeth ddichonoldeb a gomisiynwyd gan Bwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor. Adroddwyd bod y Cyngor Cymuned wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yng ngweithdy Cynllunio Cymunedol y Cyngor Sir i rannu profiadau gydag eraill o ran datblygu cynllun lleol. Cynhelir y digwyddiad ar 26 Hydref 2018. **PENDERFYNWYD** [a] diolch i Mr Phil Webb ac eraill yn y gymuned am eu gwaith gwerthfawr a'u mewnbwn i'r astudiaeth ddichonoldeb, [b] derbyn y gwahoddiad i gymryd rhan yn y Gweithdy Cynllunio Cymunedol – y Cyngorydd Keith Mouldale, Mr Steve Whipp a'r Clerc i fynd i'r gweithdy a [c] bod y Clerc yn gofyn am ragor o wybodaeth am y digwyddiad [Roedd y Cyngorydd Bob Barton wedi mynegi diddordeb yn y digwyddiad.]

Dywedodd y Cyngorydd Keith Mouldale ei fod yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Dreffynnon ar 12 Hydref i ddysgu mwy am eu cylchgrawn cymunedol sy'n cwmpasu pum pentref. Dywedodd y Cyngorydd Bob Barton bod grantiau ar gael ar gyfer cynhyrchu newyddlenni.

482.4 Tai Adroddwyd bod nifer o eiddo dan berchnogaeth Grŵp Cynefin wedi parhau'n wag ers cryn amser. Mae un tenant yn gadael eiddo oherwydd tamprwydd. Mae'r Clerc yn aros am ateb gan y gymdeithas dai.

482.5 Gwasanaethau Bws Graigfechan Adroddwyd y bydd y Cynghorydd H Evans, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, yn bresennol mewn cyfarfod rhwng swyddogion a thrigolion Graigfechan yn bennaf yn nhafarn y Three Pigeons ddydd Gwener, 12 Hydref 2018 am 11am yn dilyn pryderon a fynegwyd wrtho. Dywedodd y Cynghorydd John Pugh y byddai'n mynd i'r cyfarfod. Awgrymodd y Cynghorydd Bob Barton y dylai'r Cyngor Sir ailsefydlu'r Fforwm Cludiant Gwledig.

483 COFNODION PENDERFYNWYD

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

484 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

484.1 Cofebau Rhyfel – Adroddwyd bod y Clerc wedi cysylltu gyda Sgwadron 24 yr Awyrlu i ofyn am gymeradwyaeth i osod plac i goffáu'r criw a fu farw mewn damwain awyren yn lleol ym mis Gorffennaf 1942. Yn y cyfamser mae gwybodaeth wedi dod i law am y trefniadau i osod plac ym mynwent Llanarmon yn lâl ddeng mlynedd yn ôl. Derbyniwyd cadarnhad hefyd nad oedd y rhai a laddwyd yn Llanfair o'r ardal leol a dyna'r rheswm pam nad oeddynt wedi'u cynnwys gyda'r rhestr enwau ar y Gofeb Rhyfel sy'n bodoli. Adroddwyd hefyd bod y Clerc, yn dilyn ymgynghori gyda'r aelodau, wedi bwrw ymlaen i archebu dau silwét gan y Lleng Brydeinig i ddynodi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf 100 mlynedd yn ôl. Roedd rhaid i'r Clerc lenwi ffurflen indemnïad fel rhan o'r broses. Cynhelir Sul y Cofio ar ddydd Sul, 11 Tachwedd, a bydd y Clerc yn archebu torch gan y Lleng Brydeinig.

PENDERFYNWYD [a] cymeradwyo gweithredoedd y Clerc i brynu dau silwét, [b] un silwét i'w osod ger y Gofeb Rhyfel mewn pryd ar gyfer Sul y Cofio a lleoliad arall i'w benderfynu maes o law, [c] bod y Cynghorydd John Pugh yn gofyn am ganiatâd i'r silwét arall gael ei osod ar dir Capel Ebeneser, Graigfechan a [ch] bod y Clerc yn drafftio cais galluedd i'w gyflwyno i Esgobaeth Llanelwy i osod plac yn Eglwys Llanfair.

484.2 Sedd wag ar y Cyngor – Adroddwyd na wnaed cais am etholiad a bod hysbysiad cyfethol wedi'i roi ar wefan y Cyngor Cymuned a'r hysbysfyrddau yn gofyn am fynegi diddordeb gan y cyhoedd. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 22 Hydref 2018. **PENDERFYNWYD** gwahodd yr holl ymgeiswyr i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 12 Tachwedd i gyfarfod yr aelodau a rhoi cyflwyniad cryno ynghylch pam yr hoffent fod yn gynghorydd a'r hyn y gallant ei gynnig i'r gymuned.

484.3 Carafan yn Erw Fair PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc gael diweddariad gan Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio Cyngor Sir Ddinbych.

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.

356.3 367.1 387.3 10/09/18	Y Gofeb Rhyfel - Plac i goffâu'r rhai a fu farw mewn damwain awyren yn unol â chais Mr John Harrop. Gofynnwyd am ddyfynbrisiau yn cynnwys glanhau ac ailbaentio'r arysgrifiadau ar y Gofeb Rhyfel. Gellid bod angen dilysu enwau aelodau'r llw awyr gan Gofnodion Milwrol yr Awyrlu cyn gofyn am ganiatâd a dyfynbrisiau newydd. Mae Pwyllgor yr Eglwys yn ffafrio lleoliad yn yr eglwys yn hytrach na'r tu allan ger y giat.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb. Y Clerc - Gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
375.6 16/04/18	Carafan yn Erw Fair Monitro i barhau.
431.2 10/09/18	Pont Eyarth Mae'r arwyddion cyfyngiad pwysau wrth ddod at bentref Llanfair o Wrecsam ar yr A525 ac o Bwllglas yn annigonol ac mae'r Cyngor Sir yn edrych arnynt eto. Dosbarthwyd adroddiad cynnydd ynghylch y gwaith ar y bont i'r aelodau. Petai'r gwaith trwsio cerrig arch y bont yn llwyddiannus bydd Cyngor Sir Ddinbych yn monitro'r bont am rai blynyddoedd i sicrhau bod yr arch yn parhau'n un darn. Unwaith y bo'r broses wedi'i chwblhau bydd y cyfyngiad pwysau yn cael ei ddiddymu.
431.4 16/04/18 11/06/18 10/09/18	Biniau Sbwriel Cyffredinol Lleoliadau arfaethedig – cylchfan Parc y Llan, Llanfair; Bron y Clwyd ger yr arosfan bws gyferbyn â'r ysgol newydd yn Llanfair; Yr Hen Swyddfa Bost, Pentrecelyn a nesaf at y gysgodfan bws/hysbysfwrdd yng Nghraigfechan. Ffebrir bin dwbl gyferbyn â'r ysgol newydd. Pob bin i gynnwys fflapiau. Mae'r gost yn debygol o fod oddeutu £1,525 ond nid ydynt mewn stoc ar hyn o bryd.
431.5 16/04/18	Problemau draenio / llifogydd ym Mhentre Coch Monitro i barhau.
431.6 16/04/18	Estyniad i'r terfyn cyflymder 30 milltir yr awr ym Mhentrecelyn Cyfeiriwyd y mater at y Pennaeth Priffyrdd.
431.7 10/09/18	Cyffordd yr A525 – Lôn Plas Bedw Cais am arwydd newydd wedi'i ychwanegu at y rhaglen waith i'w chyflawni cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd Uwch Beiriannydd yn ystyried y mater gyda'r cerrig ymwithiol ar y lôn i benderfynu a oedd angen gwneud gwaith adferol.
445.2 10/09/18	Gwasanaethau Bws Graigfechan Rhoddwyd hysbysiad am y gwasanaethau ar hysbysfwrdd y Cyngor yng Nghraigfechan.
451.2 11/06/18	Apêl Cyllid Eisteddfod yr Urdd 2020 Yr aelodau i ystyried rhoi cyllid fel rhan o'r broses praesept yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
454.1 09/07/18 10/09/18	Band eang Mynegodd y Cyngorydd Barton bryder bod y gwaith ar restrau diffiniol i drigolion wedi dod i ben. Roedd o'r farn bod angen i'r Llywodraeth roi grantiau i drigolion yn ogystal â busnesau. Cyfeiriodd y Cyngorydd Barton at adroddiad gan Mr Darren Millar ynghylch rhaglen newydd.

454.2 11/06/18	Cynllun Cymdogaeth – y grŵp i gyfarfod ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r arolwg cymunedol.
476.3 10/09/18	Gardd Gymunedol Graigfechan Y safle i'w lefel a'i glirio ac ymgynghori gyda'r gymuned ehangach ynghylch y defnydd posibl yn y dyfodol maes o law.

485 GOHEBIAETH Cyflwynwyd

485.1 Llythyr dyddiedig 14/09/18 gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynghylch Adolygu Trefniadau Etholiadol Sir Ddinbych – Cynigion Drafft. Tra'n cadw'r trefniadau daearyddol sy'n bodoli eisoes yn y ddwy ward etholiadol mae'r Comisiwn yn argymhell enw newydd i'r ward etholiadol, sef Llanfair Dyffryn Clwyd and Gwyddelwern. Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar yr adolygiad yw 13/12/18.

PENDERFYNWYD anfon ymateb yn nodi nad yw'r Cyngor Cymuned yn cytuno gydag enw newydd y ward etholiadol ac y dylai'r trefniant presennol barhau.

[Pleidleisiodd y Cynghorwyr Tim Faire, Jayne Mayers, Keith Mouldsdales, John Pugh a Paul Weston o blaid y cynnig a dewisodd y Cynghorydd Bob Barton atal ei bleidlais].

485.2 Pwyllgor Ardal Conwy a Sir Ddinbych Un Llais Cymru Hysbysiad cyfarfod ar 10/10/18 ym Mhafiliwn Chwaraeon Corwen am 7pm. Nodwyd.

485.3 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Cyfarfodydd

29/09/18 Cyfarfod Blynnyddol Un Llais Cymru – cyflwynodd y Cynghorydd Bob Barton adroddiad cryno ar lafar yn datgan y cytunwyd ar gynnydd o 5% i gost aelodaeth 2019/20.

486 CYNLLUNIO www.sirdinbych.gov.uk/cynllunio

PENDERFYNWYD Anfon ymatebion fel a ganlyn:

486.1 Neges e-bost dyddiedig 19/09/18 gan Uned Moderneiddio a Gwella Busnes Cyngor Sir Ddinbych ynghylch cais enwi a rhifo strydoedd ar gyfer tai arfaethedig ar dir i'r gorllewin o Ffordd Wrecsam, Llanfair DC. Yr enwau strydoedd arfaethedig gan y datblygwr yw Cae Mair, Llys Heulyn, Dôl y Dyffryn a Threm y Llan.

PENDERFYNWYD ystyried defnyddio enwau caeau wrth enwi datblygiadau tai newydd. Mae map degwm 1836 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dangos caeau rhif 70 Cae Cefuty [cae â'r ar gyfer fferm yr Hendre], rhif 71 Cae Goriwared [efallai y dylai nodi Cae Goriwared sef llethr ar i lawr a rhif 72 Llwyn. Awgrymwyd y dylid enwi'r ystad yn Hendre.

486.2 Cais 20/2018/0871 Newid defnydd o ganolfan gymuned i annedd unigol [dosbarth C3] [Cais Adeilad Rhestredig] – Tŷ'r Eglwys, Llanfair DC.

PENDERFYNWYD cefnogi'r cynnig gan ychwanegu bod y Cyngor Cymuned yn gobeithio y bydd yr eiddo'n cael ei ddatblygu fel cartref fforddiadwy i'r gymuned.

487 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

487.1 Ffyrdd heb eu mabwysiadu yng Nghymru – Arolwg/Ymgynghoriad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cyflwynwyd e-bost dyddiedig 26/09/18.

PENDERFYNWYD cael rhestr o ffyrdd heb eu mabwysiadu yn ardal y cyngor cymuned gan y Cyngor Sir.

487.2 Gwaith trwsio i wal yr Eglwys, Llanfair DC Aros am drydydd dyfynbris.

488 RHEOLAU SEFYDLOG

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynigion i ychwanegu'r cymalau isod –
“1.7 Bydd cyfraniadau neu areithiau gan gynghorydd yn ymwneud â'r cynnig sy'n cael ei drafod yn unig ac ni fydd yn hwy na 3 munud heb ganiatâd cadeirydd y cyfarfod.

1.8 Ni fydd cyfarfod yn goresgyn cyfnod o 2 awr.”

RHAN 2

489 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

490 MATERION ARIANNOL

490.1 Cyflwynwyd – Crynodeb o'r Incwm a'r Gwariant am y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Medi 2018 a chysoniad banc -

Llyfr arian parod		Banc	
Balansau 01-04-18	9907.72	Cyfrif cyffredinol 30-09-18	24344.62
Derbynebaw	20223.43	Cyfrif busnes 30-09-18	1023.43
Llai taliadau	4853.10	Llai siec heb glirio	90.00
Balans	<u>£25278.05</u>	Balans 30-09-18	<u>£25278.05</u>

PENDERFYNWYD Cymeradwyo.

490.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£500.00 Y Lleng Brydeinig [cyfraniad am ddau silwét Rhyfel Byd Cyntaf]

£196.20 Hawliad treuliau'r Clerc, 1 Gorffennaf – 8 Hydref 2018

£ 12.85 Cyngor Tref Dinbych [costau rhannu car y Clerc ar 05/09/18]

£173.16 Rhys Jones, Trydanwr [gosod cabinet diffibrilydd yng Nghraigfechan]

£ 95.00 Un Llais Cymru [ffi Cyfarfod Blynnyddol 29 Medi 2018 ar ran y Cynghorydd B Barton]

[Nodwyd – bod Cynghorau Cymuned Llanbedr, Llandegla a Llanferres wedi cytuno i rannu costau'r ffi gyda Chyngor Cymuned Llanfair]

490.3 Amcanbrisiau ar gyfer ffenestr newydd a thrwsio to cysgodfan bws yng Nghraigfechan

PENDERFYNWYD derbyn yr amcanbrisiau a ganlyn gan D P Williams Building [a] torri a gosod ffenestr newydd ac ailosod yr hysbysfwrdd y tu mewn i'r gysgodfan £530.00

[b] gwaith trwsio to'r gysgodfan £380.00

490.4 Eitemau amrywiol [a] Dywedodd y Cynghorydd John Pugh y byddai'n gwneud ymholiadau ynghylch trefniadau i symud hysbysfwrdd a diffibrilydd Llanfair i'r tu allan i'r ysgol newydd a [b] adroddodd y Cynghorydd Mouldale y gellid prynu hysbysfyrddau newydd derw am £400 yr un.

490.5 Ceisiadau am Gymorth Ariannol Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

491 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2018 - 12 Tachwedd [Ysgol Pentrecelyn], 10 Rhagfyr [Ysgol Llanfair]

2019 - 14 Ionawr, 11 Chwefror, 11 Mawrth

Cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 8.30pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Pentrecelyn nos Lun, 12 Tachwedd 2018 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cyngorwyr Bob Barton, David Baker [Is-gadeirydd], Wini Davies [rhan gyntaf y cyfarfod], Moira Edwards, Tim Faire, Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdales, John Pugh, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 7 aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU Dim

RHAN 1

492 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cyngorwyr John Pugh fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor ac fel Llywodraethwr Ysgol Llanfair; a'r Cyngorwyr Keith Mouldsdales fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor.

493 MATERION CYMUNEDOL

493.1 Safle'r hen ysgol, Llanfair DC Cyflwynwyd – [a] nodiadau cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2018 rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned [Y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc] gyda swyddog o dîm Rheoli Asedau Cyngor Sir Ddinbych, i ganfod pa gynigion, os o gwbl, sydd gan yr awdurdod lleol ar gyfer y safle pan fydd yr ysgol newydd yn agor a [b] nodyn trafodaeth a baratowyd gan Mr Steve Whipp ynghylch ystod o gynigion posibl ar gyfer y safle.

Sefydlwyd bod y Cyngor Sir [a] yn berchen ar y tir o amgylch yr adeilad [yn y portffolio addysg] – mae'r adeilad ym mherchnogaeth yr Eglwys a bydd y trefniant hwn yn trosglwyddo pan fo'r ysgol yn symud i'r safle newydd [b] yn mynd i ymgynghori gyda'r holl wasanaethau awdurdod lleol eraill ynghylch defnyddiau posibl yn y dyfodol ar gyfer y safle pan fydd y safle'n cael ei nodi'n swyddogol fel un nad oes ei angen mwyach a [c] yn mynd i ymgynghori gyda'r gymuned leol hefyd ynghylch syniadau ar gyfer y safle, y bydd rhaid eu cyfiawnhau ar sail achos busnes cadarn.

493.2 Nwy prif gyflenwad Adroddwyd bod y datblygwr tai wedi prynu'r tir a bod trafodaethau'n parhau rhwng y rhai â diddordeb, yn cynnwys casglu mwy o fynegiadau o ddiddordeb/ymrwymadau gan wahanol sefydliadau. Yn y cyfamser mae Grŵp Cynefin wedi datgan y byddai penderfyniad p'un ai i gysylltu nwy prif gyflenwad i'w heiddo yn dibynnu ar sawl ffactor. Mae o'r farn bod y gost cysylltu fesul eiddo yn uchel, ac mae'n annhebygol o fod yn flaenoriaeth ar gyfer y gymdeithas dai ar hyn o bryd. Rydym yn aros am gadarnhad o gytundeb rhwng y datblygwr a'r cwmni cyfleustodau.

493.3 [a] Canlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb Bydd Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor yn ystyried barn ac adborth o'r astudiaeth. Y brif flaenoriaeth fydd sicrhau cyllid i uwchraddio neuadd y pentref. **[b] Cynllun Cymunedol** Bydd angen i'r is-grŵp Cynllun Cymunedol gyfarfod i ddiweddarau'r ddogfen, yn enwedig wrth i gyllid cymunedol Fferm Wynt Clocaenog ddod ar gael. Cytunwyd anfon copi wedi'i ddiweddarau i'r Cyngor Sir maes o law. Atgoffwyd yr aelodau bod angen aelod yn lle'r cyn-gynghorydd Medwen Roberts. Cyfeiriwyd at Gynllun Cymdogaeth Hampshire West Dean & West Tytherley fel enghraifft dda: <http://wdwtplan.org.uk/> **[c] Cylchlythyr** Dywedodd y Cynghorydd Keith Mouldsdale y byddai'n barod i gydlynu a golygu cyhoeddiad yn cwmpasu'r ardal yn cynnwys Llanfair, Pentrecelyn, Graigfechan, Llanelidan a Phwllglas. Mae cylchlythyr ardal Treffynnon yn cwmpasu pum pentref, ac yn costio £1,000 y flwyddyn i'w gynhyrchu, ond mae'r incwm hysbysebion yn talu'r costau hynny.

493.4 Plac Coffa i griw'r Awyrlu Roedd y Clerc wedi cofrestru ar-lein gyda'r wefan Treftadaeth Eglwysi i ddechrau'r broses o lenwi cais galluedd ond ers hynny cafodd ei hysbysu mai'r trysorydd yw'r ymgeisydd cofrestredig ar gyfer Eglwys Llanfair. Bydd angen i hyn gael ei gadarnhau gan Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth. Byddai'n rhaid cael cynlluniau, ffotograffau a chostau gyda'r cais. Yn y cyfamser roedd y Clerc wedi derbyn llythyr arall gan un o'r cyhoedd sy'n credu mai'r unig le ar gyfer y plac coffa yw yn yr ardal o gwmpas y Gofeb Rhyfel, a fyddai mewn lle gweladwy a blaenllaw. Roedd yn gofyn i'r Cyngor Cymuned roi ystyriaeth ddwys i'r opsiwn yma. Gofynnwyd am gyngor gan Swyddog Cadwraeth Cyngor Sir Ddinbych ac ymddengys y gellid gosod plac ar y tir o flaen y Gofeb neu ar blinth yn pwyso yn erbyn y wal isel y tu ôl iddi ar y dde. Gellid gwneud hyn fel datblygiad a ganiateir, ond byddai'n rhaid ymgynghori gyda'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel. Nid oedd yn ystyried ei bod yn briodol gosod y plac un ai ar wal tŷ preifat na'r tu mewn i'r eglwys.

PENDERFYNWYD rhoi rhybudd bod y Cyngor Cymuned yn bwriadu diddymu ei benderfyniad i osod plac yn yr Eglwys. Bwriedir ystyried gosod plac ar y ddaear o flaen y Gofeb Rhyfel neu ar blinth yn pwyso yn erbyn y wal isel y tu ôl iddi.

493.5 Sul y Cofio Cofnodwyd diolchiadau fel a ganlyn – i'r Cynghorydd Moira Edwards am ei hymdrechion yn sicrhau bod yr ardal o gwmpas y Gofeb yn lân ac yn daclus ac am ofalu am y blychau blodau; i'r Cynghorydd John Pugh am drefnu i osod y silwétâu cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf ger y Gofeb a Chapel Ebenser yng Nghraigfechan.

494 COFNODION PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

495 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

495.1 Tai [482.4] Roedd y Clerc wedi derbyn ateb gan Grŵp Cynefin. Y gymdeithas dai sy'n rheoli'r eiddo fel rhan o Elusen Elusendai Elizabeth Owen, sy'n endid ar wahân i Grŵp Cynefin. Yn anffodus, gan nad yw'r eiddo yn eu perchnogaeth, ni all Grŵp Cynefin gyllido gwaith gwella'r eiddo ond mae'n parhau i ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau cyllid i uwchraddio rhesdai Elizabeth Owen yn Llanfair. Mae Swyddog Cadwraeth Cyngor Sir Ddinbych wedi mynegi pryder am nifer yr eiddo sy'n wag yn y teras a'u cyflwr yn dirywio oni bai bod rhywbeth yn cael ei wneud.

Mynegodd yr aelodau bryderon ei bod yn ymddangos nad yw'r gymdeithas dai yn cyflawni ei dyletswyddau rheoli a bod angen canfod beth yw telerau'r denantiaeth o ran trwsio a chynnal a chadw. Dim ond tri o'r saith eiddo sy'n cael eu defnyddio.

495.2 Gwasanaethau Bws Rhuthun i Graigfechan/Pentrecelyn [482.5]

Cyflwynwyd – e-bost dyddiedig 9/11/18 gan Reolwr Cludiant Teithwyr Cyngor Sir Ddinbych yn nodi'r dewisiadau ar gyfer y pentrefi, yn dilyn cyfarfod cyhoeddus diweddar a gynhaliwyd ar 12/10/18 a nodyn yn esbonio'r sefyllfa gyfredol, sydd bellach gyda'r gweithredwyr a staff derbynfa Neuadd y Sir. Anfonwyd y wybodaeth trwy e-bost at y cyhoedd a ddaeth i'r cyfarfod cyhoeddus hefyd, gydag un wedi cynnig rhannu'r wybodaeth i drigolion eraill â diddordeb. Diweddarwyd y wybodaeth a ddangosir yn arosfan bws Graigfechan hefyd. Daethpwyd i'r casgliad bod trigolion yn ymddangos yn hapusach gyda'r system sy'n bodoli yn awr, bod ymgais wedi'i wneud i wella'r cyfathrebu, bydd y gwasanaeth tacsï yn arddangos arwydd Graigfechan a bwriedir gwneud ymdrech i adfer y Fforwm Cludiant Gwledig.

495.3 Sedd wag ar y Cyngor – Adroddwyd y derbyniwyd tri chais a bod yr holl ymgeiswyr wedi'u gwahodd i fod yn bresennol ar 12 neu 19 Tachwedd i gyfarfod yr aelodau. **PENDERFYNWYD** cyfweld dau ymgeisydd yn ystod Rhan 2 y cyfarfod a chyfweld y trydydd ymgeisydd ar 19 Tachwedd.

495.4 Carafan yn Erw Fair [484.3] Adroddwyd bod yr awdurdod lleol wedi cyflwyno rhybudd terfynol cyn achos llys ar 31/10/18 yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog symud y garafan oddi ar y tir amaethyddol.

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdaile a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Rhyfel. Y Clerc – gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
431.4 16/04/18 11/06/18 10/09/18	Biniau Sbwriel Cyffredinol Lleoliadau arfaethedig – cylchfan Parc y Llan, Llanfair; Bron y Clwyd ger yr arosfan bws gyferbyn â'r ysgol newydd yn Llanfair; Yr Hen Swyddfa Bost, Pentrecelyn a nesaf at y gysgodfan bws/hysbysfwrdd yng Nghraigfechan. Ffebrir bin dwbl gyferbyn â'r ysgol newydd. Pob bin i gynnwys fflapiau. Mae'r gost yn debygol o fod oddeutu £1,525 ond nid ydynt mewn stoc ar hyn o bryd.
431.5 16/04/18	Problemau draenio / Ilifogydd ym Mhentre Coch Monitro i barhau.
431.6 16/04/18	Estyniad i'r terfyn cyflymder 30 milltir yr awr ym Mhentreceelyn Cyfeiriwyd y mater at y Pennaeth Priffyrdd.
431.7	Cyffordd yr A525 – Lôn Plas Bedw

10/09/18	Cais am arwydd newydd wedi'i ychwanegu at y rhaglen waith i'w chyflawni cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd Uwch Beiriannydd yn ystyried y mater gyda'r cerrig ymwithiol ar y lôn i benderfynu a oedd angen gwneud gwaith adferol.
451.2 11/06/18	Apêl Cyllid Eisteddfod yr Urdd 2020 Yr aelodau i ystyried rhoi cyllid fel rhan o'r broses praesept yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

496 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU Cyflwynwyd

496.1 Bwletin Un Llais Cymru 2018 – eitemau ar Adolygiad Cyngorau Tref a Chymuned, Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth – lwfansau Cyngorwyr ac Adolygiad Llywodraeth Cymru ynghylch Arloesi Digidol. Gallai cynigion pellach ynghylch lwfansau effeithio ar gyllidebau Cyngorau. Nodwyd. Dywedodd y Cyngorydd Bob Barton y dylai'r sefyllfa o ran prosesu taliadau i Gyngorwyr gael ei herio [sylwadau i'w cyflwyno erbyn 27/11/18]. Fodd bynnag, hysbysodd y Clerc yr aelodau bod Clercod a aeth i Seminar Hyfforddiant Rhanbarthol SLCC yn Llandudno ar 05/09/18 wedi cael cyfarwyddiadau bod rhai defnyddio'r system Talu wrth Ennill i brosesu Lwfansau Cyngorwyr. Gall darparwydd cyflogres y Cyngor Cymuned, AVOW, brosesu taliad blynyddol un tro yn unig ar gost o £5 fesul Cyngorydd.

496.2 Neges e-bost gan Un Llais Cymru dyddiedig 12/10/18 ynghylch Adolygiad Llywodraeth Cymru ynghylch Arloesi Digidol. Rhagwelir y bydd y chwyldro technolegol nesaf yn newid y ffordd rydym ni'n byw, gweithio ac yn ymwneud â'n gilydd mewn modd sylfaenol. Nodwyd. Gwnaeth y Cyngorydd Bob Barton sylw bod sefyllfa 'magl 22' yn bodoli o ran band eang ac roedd o'r farn nad yw'r awdurdod lleol wedi gwneud fawr ddim i symud pethau ymlaen.

496.3 Neges e-bost Un Llais Cymru dyddiedig 24/10/18 ynghylch Dyddiadau Cynadleddau 2019. Awgrymodd y Cyngorydd Barton y dylai'r Cyngor Cymuned enwebu'r prosiect cynllun cymdogaeth ar gyfer Gwobr Genedlaethol Arfer Arloesol Un Llais Cymru [cynhadledd 28/03/19 Llanellwedd], dyddiad cau 25/01/19.

496.4 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd

[a] 26/10/18 Gweithdy Cynllunio Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych gyda'r Cyngorydd Keith Mouldsdaile a'r Clerc yn bresennol. Roedd y digwyddiad yn gadarnhaol iawn ac yn darparu cyfle i'r rhai oedd yn bresennol rwydweithio a rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau yn y sir. Siaradodd y Cyngorydd Mouldsdaile am y gwahanol gamau wrth ddatblygu cynllun cymdogaeth ar gyfer ardal y Cyngor Cymuned. Gofynnwyd i'r Clerc rannu gwybodaeth i'r aelodau am y tri phrosiect a roddodd gyflwyniad [Artisans Collective Prestatyn, Ysgol Llandrillo a Chynllun Llanfair] ac adborth yn dilyn y digwyddiad.

[b] 12/11/18 Digwyddiad Fferm Wynt Clocaenog a fynychwyd gan y Clerc. Pwrpas y digwyddiad oedd gofyn i drigolion rannu eu barn i siapio'r ffordd y rheolir y cyllid a fydd yn darparu hyd at £768,000 y flwyddyn i gefnogi prosiectau cymunedau lleol a datblygu economaidd. Awgrymodd yr aelodau y gallai pecyn cyllido ar gyfer nifer o ardaloedd yn cydweithio gyda'i gilydd fod yn brosiect potensial. Dosbarthodd y Clerc wybodaeth am arolwg cronfa fuddsoddi cymunedol a gynhyrchwyd gan Innogy. Mae'r arolwg hwn yn gyfle i bobl ddweud sut y dylid gwario'r arian hwn a dewis opsiwn o ran yr ardal budd [byddai opsiwn 1 yn cynnwys ardal gyfan y Cyngor

Cymuned]. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg yw 17/12/18. Gellir llenwi'r holiadur ar-lein hefyd: www.innogy.com/clocaenogforest

[c] Adroddod y Cynghorydd Bob Barton ei fod wedi mynd i ddigwyddiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn Llanrhaeadr yn ddiweddar. Bydd hwylusydd yn cael ei gyflogi i gydlynu dull yr AoHNE o ymdrin â thwristiaeth, bwyd a diod a denu mwy o ymwelwyr i'r ardal.

497 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

497.1 Cais 20/2018/0996 Dymchwel y tai bach allan a'r adeilad allanol yn gysylltiedig â'r annedd, adeiladu estyniadau ac addasiadau i'r annedd, dymchwel tŷ allan ar wahân a chreu porth car ar wahân, adnewyddu'r tanc septig a gwaith cysylltiedig. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn cefnogi'r cynigion.

497.2 Cais 20/2018/0802 Cyflwynwyd – neges e-bost dyddiedig 24 Hydref 2018 gan yr Uwch Swyddog Cynllunio ynghylch manylion draenio ar gyfer y cynllun tai newydd yn Llanfair. Mae un o'r trigolion, Mr Steve Whipp, wedi datgan fod ei bryder yn parhau. **PENDERFYNWYD** anfon ymateb i'r Adran Gynllunio yn nodi bod yr Aelodau [a] yn gwerthfawrogi i ba raddau y cynhaliwyd gwiriadau gyda gwahanol arbenigwyr. Fodd bynnag, mae pryder yn parhau gan fod anawsterau ymdrin â draenio dŵr arwyneb y pentref fel y mae ar hyn o bryd, ac unwaith y bydd y datblygiadau newydd wedi'i adeiladu bydd gorlifo'n digwydd yn amlach ac i raddau helaethach. Amser a ddengys a oes sail i'r ofnau hyn a [b] byddent yn gofyn am gadarnhad sicrhau bond petai llifogydd o'r fath yn digwydd ac [c] hefyd yn gofyn am sicrwydd ynghylch archwilio a chynnal a chadw draeniau'n rheolaidd a bod angen gwybod pryd oedd y tro diwethaf y gwnaed hyn.

497.3 Cais 20/2018/1027. Adeiladu adeilad amaethyddol ar gyfer da byw a storio porthiant ac offer – tir nesaf at Tŷ Terfyn, Llanfair DC **PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau o'r farn bod y cais yn cefnogi amaethyddiaeth yn yr ardal.

497.4 Cais 20/2018/1041 Adnewyddu adeilad amaethyddol i'w ddefnyddio fel cysgodfan anifeiliaid a storfa offer – Hirdir, Pentrecelyn **PENDERFYNWYD** bod y cynnig wedi'i gyflwyno'n dda ac y dylid ei gefnogi.

498 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

498.1 Ffyrdd heb eu mabwysiadu yng Nghymru – Arolwg/Ymgynghoriad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Adroddwyd nad oes gan y Cyngor Sir restr o ffyrdd heb eu mabwysiadu gan mai'r unig ymrwymiad dan adran 36 Deddf Priffyrdd 1980 yw cadw rhestr o ffyrdd wedi'u mabwysiadu.

498.2 Gwaith trwsio i wal yr Eglwys, Llanfair DC Aros am drydydd dyfynbris.

498.3 Pont Eyarth – Arwyddion Cyfyngiad Pwysau Adroddwyd bod arwyddion newydd i'w gosod yn Llanfair. Holodd aelod am ba mor hir y bydd y cyfyngiad pwysau 18 tonn yn parhau. Os bydd y gwaith trwsio'r cerrig bwa yn llwyddiannus bydd Cyngor Sir Ddinbych yn monitro'r bont am ychydig o flynyddol i weld a yw'r bwa

yn parhau'n un darn. Unwaith y bo'r broses hon wedi'i chwblhau diddymir y cyfyngiad pwysau.

RHAN 2 489 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

490 SEDD WAG AR Y CYNGOR Cafodd dau ymgeiswydd eu cyfweld, gyda'r trydydd ymgeisydd i gyfarfod y Cynghorwyr ar 19 Tachwedd.

491 MATERION ARIANNOL

491.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn: £17.55 Y Cyngorydd Keith Mouldsdale, costau teithio 26/10/18 i Fodelwyddan

491.5 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD gwneud taliad fel a ganlyn: £200.00 Y Lleng Brydeinig

491.6 Cyllideb Praesept PENDERFYNWYD y byddai'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc yn llunio cyllideb praesept ddrafft i'w hystyried yn y cyfarfod Cyngor llawn i'w gynnal ar 10 Rhagfyr 2018.

492 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2018 - 19 Tachwedd [Genus], 10 Rhagfyr [Ysgol Llanfair]
2019 - 14 Ionawr, 11 Chwefror, 11 Mawrth

Cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen 8.50pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, nos Lun, 19 Tachwedd 2018 am 7.30 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Bob Barton, David Baker [Is-gadeirydd], Moira Edwards, Tim Faire, Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdale, John Pugh, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

YMDDIHEURIADAU Dim.

493 SEDD WAG AR Y CYNGOR

Pwrpas y cyfarfod oedd cyfweld y trydydd ymgeisydd, Mr Osian Owen, i lenwi sedd wag ar y Cyngor. Roedd dau ymgeisydd arall, sef Mr Peter Brixey a Mrs Ceri Ranson, wedi cael eu cyfweld yng nghyfarfod y Cyngor ar 12 Tachwedd 2018. Nododd yr aelodau bod y Cyngor yn ffodus o dderbyn ceisiadau gan ymgeiswyr a fyddai'n medru cyfrannu i'r gymuned leol yn eu barn nhw.

Yn dilyn pleidlais **PENDERFYNWYD** penodi Mrs Ceri Ranson i lenwi'r swydd wag ac y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu gyda'r holl ymgeiswyr i'w hysbysu am y canlyniad.

494 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2018 - 10 Rhagfyr [Ysgol Llanfair]

2019 - 14 Ionawr, 11 Chwefror, 11 Mawrth

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfair nos Lun, 10 Rhagfyr 2018 am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Bob Barton, David Baker [Is-gadeirydd], Wini Davies, Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdales, Ceri Ranson ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 3 aelod o'r cyhoedd ynghyd â'r Cynghorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorwyr Moira Edwards [apwyntiad ysbyty], Tim Faire [salwch] a Paul Weston [ymrwymiad blaenorol].

RHAN 1

495 DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd Keith Mouldsdales fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor a'r Cynghorydd David Baker fel aelod o Gyngor Eglwys Llanfair.

496 DERBYN SWYDD

Croesawyd Ceri Ranson i'w chyfarfod cyntaf ers ei phenodi'n Gynghorydd Cymuned. Cafodd y ffurflen derbyn swydd ei chwblhau a'i llofnodi'n briodol.

497 MATERION CYMUNEDOL

497.1 Safle'r hen ysgol / Ysgol Llanfair newydd Gwnaeth Mr Steve Whipp gais i'r nodiadau gael eu hanfon at y Cyngor Sir.

497.2 Nwy prif gyflenwad Dim i'w adrodd.

497.3

[a] Canlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb Bydd Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor yn penderfynu ar y blaenoriaethau gweithredu.

[b] Cynllun Cymunedol Atgoffwyd yr aelodau bod angen aelod yn lle'r cynghorydd Medwen Roberts. Dywedodd y Cynghorydd Bob Barton fod ganddo ddiddordeb mewn bod yn arsylwr. **PENDERFYNWYD** y bydd y Cynghorydd Ceri Ranson yn dod yn aelod o'r is-grŵp Cynllun Cymunedol ar ran y Cyngor Cymuned.

[c] Cylchlythyr Adroddodd y Cynghorydd Keith Mouldsdales ei fod wedi derbyn ymatebion cadarnhaol i'r cynnig i gynhyrchu cylchlythyr chwarterol yn cwmpasu pum pentref o Ionawr 2019 ymlaen. Mae ceisiadau'n cael eu gwneud am grantiau, a gobeithir y bydd Cynghorau Cymuned Efenechtyd, Llanellidan a Llanfair yn cyfrannu at gostau sefydlu'r llythyr newyddion. Gobeithir y bydd y cylchlythyr yn datblygu i fod

yn un sy'n hunan ariannu ymhen amser, gyda'r costau'n cael eu talu o'r refeniw hysbysebion. Ychwanegodd y Cyngorydd Mouldale bod nifer o bobl yn cynorthwyo a'i fod yn chwilio am wirfoddolwyr o bob ardal i gynorthwyo gyda chynnwys, golygu, argraffu a dosbarthu'r cylchlythyr.

497.4 Plac Coffa i griw'r Awyrlu Adroddwyd nad oes gan yr Awyrlu / Sgwadron 24 unrhyw wrthwynebiad i osod plac coffa, ac yr ymgynghorwyd gyda'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel hefyd. Gan mai'r Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am y Gofeb, nid oes angen caniatâd gan y perchennog ac nid oes angen caniatâd adeilad rhestredig ychwaith gan fod y cynnig yn rhan o ddatblygiad a ganiateir. Dywedodd y Clerc y byddai'n cael dyfynbrisiau ar gyfer y ddau opsiwn, hynny yw, plac ar y tir o flaen y Gofeb neu ar blinth yn pwysu yn erbyn y wal isel y tu ôl i'r Gofeb.

498 COFNODION PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 a 19 Tachwedd 2018 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

499 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

499.1 Tai [482.4] Mynegodd yr aelodau bryderon ei bod yn ymddangos nad yw'r gymdeithas dai yn cyflawni ei dyletswyddau rheoli a bod angen canfod beth yw telerau'r denantiaeth o ran trwsio a chynnal a chadw. Hefyd mae dryswch ynghylch cyfrifoldebau rheoli ar ran ymddiriedolwyr Elusendai Elizabeth Owen. Dim ond tri o'r saith eiddo sy'n cael eu defnyddio. **PENDERFYNWYD** gwahodd cynrychiolydd o Grŵp Cynefin i gyfarfod y Cyngor Cymuned yn y dyfodol i sgwrsio am y cynlluniau ar gyfer yr elusendai.

499.2 Gwasanaethau Bws Rhuthun i Graigfechan/Pentrecelyn [482.5, 495.2] Cyflwynwyd – e-bost dyddiedig 20/11/18 gan Reolwr Cludiant Teithwyr Cyngor Sir Ddinbych yn datgan bod y Cyngor Sir wedi cyflwyno cynllun, am gyfnod prawf, ar gyfer pobl sy'n dymuno teithio i ac o Wrecsam. Bydd y gwasanaeth 158 newydd yn gwasanaethu Llandyrnog, Llanbedr, Graigfechan a Phentrecelyn, gan ddechrau ym mis Rhagfyr. Mae'r gwasanaeth am ddim ar hyn o bryd ond bydd yn codi tâl unwaith y bo wedi'i gofrestru gyda'r Comisiynydd Traffig. Pan godir tâl bydd y rhai gyda thocyn teithio am ddim yn parhau i gael teithio am ddim. Mae'r tâl arferol yn berthnasol i'r gwasanaeth X51. Adroddodd y Cyngorydd Wini Davies bod y gwasanaeth bws mini yn gweithio'n dda.

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/news/november-2018/Rural-bus-route-given-the-go-ahead.aspx>

499.3 Biniau Sbwriel Cyffredinol [431.4] Dywedodd y Clerc bod angen gweithredu. Roedd y cynnydd wedi bod yn araf iawn a bod y mater wedi bod ar y gweill ers Ebrill 2018. Cynigiodd yr Arweinydd gynorthwyo i symud pethau ymlaen.

499.4 Terfyn cyflymder 30 milltir yr awr ym Mhentrecelyn [431.6] Gofynnodd y Cadeirydd pryd y byddai'r terfyn cyflymder yn cael ei weithredu. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n gwneud ymholiadau. Dywedodd Mr Steve Whipp y byddai'n cysylltu gyda'r heddlu ynghylch patrolau gwyllo cyflymder y tu allan i'r ysgol.

499.5 Carafan yn Erw Fair [495.4, 484.3] Hysbyswyd bod y garafan wedi'i symud. Fodd bynnag, ymddengys bod 75% ar dir amaethyddol a 25% ar gwrtil yr eiddo. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Swyddog Gorfodaeth gadarnhau beth yw'r sefyllfa.

499.6 Band eang [496.2] Adroddodd yr Arweinydd bod gwelliannau i'r ddarpariaeth band eang yn parhau a bod cynlluniau i gynyddu mynediad i'r rhyngwrwyd ar draws y rhanbarth. Bydd y cynllun yn gweld uwchraddio cyflymder y cysylltiad rhyngwrwyd yn y sector cyhoeddus yng ngogledd Cymru – 400 o safleoedd, yn cynnwys ysgolion, llyfrgelloedd a meddygfeydd i gael cysylltiadau ffibr cyflymach, gyda 95 o adeiladau yn Sir Ddinbych i elwa o hyn. Gwnaed gwaith ar hyn gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gyda'r Cynghorydd Evans yn cymryd rôl arweiniol.

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Rhyfel. Y Clerc – gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
431.5 16/04/18	Problemau draenio / Ilifogydd ym Mhentre Coch Monitro i barhau.
431.7 10/09/18	Cyffordd yr A525 – Lôn Plas Bedw Cais am arwydd newydd wedi'i ychwanegu at y rhaglen waith i'w chyflawni cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd Uwch Beiriannydd yn ystyried y mater gyda'r cerrig ymwithiol ar y lôn i benderfynu a oedd angen gwneud gwaith adferol.
451.2 11/06/18	Apêl Cyllid Eisteddfod yr Urdd 2020 Yr aelodau i ystyried rhoi cyllid fel rhan o'r broses praesept yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

500 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

500.1 Ymddiswyddiad Cynghorydd Cymuned Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi derbyn llythyr gan John Pugh yn nodi ei fod yn dymuno ymddiswyddo o'r Cynghor Cymuned ac o'i rôl fel Llywodraethwyr Ysgol yn weithredol ar unwaith am resymau personol. Mynegwyd siom ynghylch ei ymddiswyddiad. Cydnabu'r aelodau ei wasanaeth clodwiw, a'i gyngor ac arweiniad arbenigol i'r Cynghor Cymuned dros nifer o flynyddoedd. Gofynnwyd i'r Clerc ddechrau'r broses i lenwi'r swydd wag gynted ag y bo modd, ac i anfon llythyr o ddiolch at John Pugh.

500.2 Arolwg Cronfa Fuddsoddi Cymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog [dyddiad cau 17/12/18]. **PENDERFYNWYD** rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cadeirydd, yr

Is-gadeirydd a'r Clerc i lenwi'r arolwg. Cadarnhaodd yr aelodau mai Opsiwn 1 [ffiniau'r cyngor cymuned] sy'n cael ei ffafrio fel yr ardal fudd.

500.3 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd

07/12/18 Cyfarfod cangen Clwyd yr SLCC a fynychwyd gan y Clerc. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys cyflwyniad gan Came & Co ar faterion yswiriant, Lwfansau Aelodau, adolygiad o brofiadau archwilio allanol, uwchraddio arfaethedig i wefan yr SLCC ac ati. Dywedodd y Cyngorydd Bob Barton bod y model cynllunio cymunedol, y broses archwilio allanol a chyllid ar gyfer Un Llais Cymru yn cael eu trafod yng nghyfarfod Pwyllgor Polisi Un Llais Cymru ar 14/12/18.

501 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

501.1 Cais 19/2018/1059 Addasiadau ac estyniad i annedd ac adeiladu garej/gweithdy sengl ar wahân yn Nhŷ Canol, Ffordd Tŷ Terfyn, Llanfair. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod o blaid y cynnig. Yr unig sylw oedd y byddai'n well ganddynt weld to pig. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai bod y cynllunwyr yn dymuno cadw'r uchder yn isel ac felly'r rheswm am y to fflat.

Bu'r aelodau'n trafod y newidiadau i'r cynnig a nodwyd bod cymdogion wedi gwneud sylwadau ynghylch y cais gwreiddiol, wnaeth arwain at y newidiadau. Cytunodd yr aelodau i gefnogi'r cynlluniau diwygiedig.

501.2 Cais 20/2018/1129 Adeiladu estyniad i'r annedd ym Mhendyffryn, Pentrecoch. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cynnig.

501.3 Cais 20/2018/1142 Dymchwel yr annedd sy'n bodoli ac adeiladu annedd newydd yn Llidiart Fawr, Ffordd Llidiart Fawr, Pentrecelyn. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cynnig.

501.4 Cais 20/2018/0802 Cyflwynwyd – neges e-bost dyddiedig 19 Tachwedd 2018 gan Reolwr Risg Llifogydd Cyngor Sir Ddinbych ynghylch manylion draenio ar gyfer y cynllun tai newydd yn Llanfair yn mynegi ei fod yn anghytuno y byddai'r datblygiad yn gwneud gorlifo'n waeth. Os oes problem llifogydd yn bodoli nid oedd wedi gweld tystiolaeth o hynny hyd yma. Mae rhagfynegiadau newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y bydd y risg o lifogydd dŵr arwyneb yn cynyddu'n fyd-eang, ond ni fydd hynny'n digwydd yn Llanfair DC oherwydd y datblygiad newydd, oni bai bod ymgynghorydd y datblygwr wedi gwneud camgymeriad difrifol yn ei gyfrifiadau. Adroddodd yr Arweinydd bod camau wedi'u cyflwyno i wella'r draeniad heibio'r tai Cyngor. **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr e-bost am y tro a nodi bod pryderon yr aelodau wedi eu hystyried a'u cofnodi.

502 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

502.1 Cŵn yn rhydd ar Lwybr Ceffylau Cyhoeddus 7 Llanfair Adroddwyd bod Swyddog Mynediad Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych wedi ysgrifennu at berchennog y cŵn yng nghyswllt cŵn yn rhydd a'r gyfraith. Gobeithir y bydd y perchennog yn cymryd sylw ac yn cadw'r cŵn dan reolaeth. Dywedodd y Cyngorydd David Baker ei fod wedi'i hysbysu bod y perchennog yn bwriadu gosod ffens i gadw'r cŵn i mewn. Mynegodd rhai aelodau bryderon y byddai pobl yn parhau i deimlo'n anghyffyrddus wrth gerdded heibio.

502.1 Trwsio Ffyrdd Roedd y Clerc wedi derbyn cais i'r Cyngor Cymuned gefnogi ychwanegu ffordd at y rhestr o waith trwsio a argymhellir i'w hystyried gan y Cyngor Sir. Y ffordd dan sylw yw'r un gyferbyn â'r Smithy yng Nghraigfechan, heibio fferm Tŷ Coch tuag at y Silff, gyda'r tarmac yn diweddu yn Fferm Pen y Bryn. Mae'r ffordd yma'n gwasanaethu 10 cartref gyda dau arall wrthi'n cael eu hadeiladu. Dywedodd yr Arweinydd bod hon eisoes ar y rhestr waith ac y dylai'r gwaith trwsio fod wedi'i wneud yr haf diwethaf. Dywedodd bod yr Adran Priffyrdd ar ei hôl hi o ran eu rhaglen ac y byddai'n cymryd camau gweithredu dilynol ynghylch y mater. Pwysleisiodd yr aelodau yr angen am sylw brys i gwlfertau hefyd.

RHAN 2 503 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

504 MATERION ARIANNOL

504.1 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:
£270.45 Swyddfa Archwilio Cymru – Ffi'r archwilydd allanol [cyfrifon 2017/18]
£106.00 Ffi aelodaeth SLCC 2019
£362.58 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu – cofnodion Gorffennaf a Medi]
Diolchodd yr aelodau i'r Cynghorydd Keith Mouldale a John Pugh am osod y goeden Nadolig a'r goleuadau yn Llanfair. Hefyd diolchwyd i Catherine Jones, un o'r trigolion, am ei haelioni yn talu costau'r goeden yn dilyn codi arian yn lleol.

504.2 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£100.00 Ysgol Llanfair – costau gwresogi'n gysylltiedig â gwasanaethau yn yr eglwys

£100.00 Genus – cyfraniad am ddefnyddio'r ystafell ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Cymuned

504.3 Cyllideb Praesept Cyflwynwyd – cyllideb ddrafft i'w hystyried. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r praesept yw 15 Ionawr 2019. Roedd y Clerc wedi caniatáu ar gyfer costau'n cynyddu, er enghraifft, cyflog, darpariaeth ar gyfer cofrestru awtomatig ar gyfer pensiwn yn 2020, costau'r gwasanaeth cyflogres, trwsio a chynnal a chadw, hyfforddiant i gynghorwyr, ffioedd gwasanaethau cyffredinol a gweithgareddau'r cynllun cymunedol [cylchlythyr £770]. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** pennu'r gyllideb sy'n ofynnol ar gyfer 2019-20 ar £30,000 cyn belled ag y bo'r cwmni yswiriant yn barod i dderbyn y ffigur hwn heb orfod cynyddu costau'r yswiriant.

504.3 Trwsio wal yr Eglwys Adrododd y Clerc ei bod yn cael peth anhawster yn cael dyfynbrisiau ychwanegol ar gyfer y gwaith ac y byddai'n gofyn i'r Cyngor Sir am restr o gontractwyr cymeradwy.

504.4 Llofnodwyr cyfrif banc Hysbysodd y Clerc, gan fod John Pugh a Medwen Roberts wedi ymddiswyddo fel Cynghorwyr, y byddai'n angen i'r aelodau ystyried penodi dau lofnodwr arall yn eu lle. **PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorwyr Moira Edwards a Paul Weston yn llofnodwyr y cyfrif banc.

505 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2019 - 14 Ionawr [Ysgol Llanfair], 11 Chwefror [Genus], 11 Mawrth [Genus]

Cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 8.25pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfair nos Lun, 14 Ionawr 2019 am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cyngorwyr Bob Barton, David Baker [Is-gadeirydd], Wini Davies, Tim Faire, Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdale, Ceri Ranson, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 4 aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU Y Cyngorwyr Moira Edwards [apwyntiad ysbyty],

RHAN 1

506 DATGAN BUDDIANNAU Y Cyngorwyr Keith Mouldsdale fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor a'r Cyngorwyr David Baker fel aelod o Gyngor Eglwys Llanfair.

507 DIWEDDARIAD YNGHYLCH SEDD WAG AR Y CYNGOR Adroddodd y Clerc nad oedd y Cyngor Sir wedi derbyn cais am etholiad erbyn y dyddiad cau, sef 9 Ionawr 2019, a gweithredwyd i hysbysebu'r sedd wag fel cyfle i gyfethol, gyda cheisiadau i'w cyflwyno erbyn 25 Ionawr 2019.

508 MATERION CYMUNEDOL

508.1 Safle'r hen ysgol / Ysgol Llanfair newydd Adroddwyd bod y corff llywodraethu yn chwilio am rhywun gydag arbenigedd iechyd a diogelwch yn lle Mr John Pugh. Cadarnhaodd y Clerc bod nodiadau Mr Steve Whipp ynghylch defnydd posibl y safle yn y dyfodol wedi'u hanfon i Adran Rheoli Asedau'r Cyngor Sir.

508.2 Nwy prif gyflenwad Dim i'w adrodd.

508.3

[a] Canlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb Nid yw Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor wedi penderfynu ar y blaenoriaethau gweithredu ar hyn o bryd.

[b] Cynllun Cymunedol Ni threfnwyd dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf yr is-grŵp cynllun cymunedol hyd yma.

[c] Cylchlythyr Adroddodd y Cyngorwyr Keith Mouldsdale ei fod wedi bod yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Pwllglas a bod swm wedi'i gynnwys ym mhraesept y Cyngor ar gyfer cynhyrchu cylchlythyr. Mae'r cynnydd hyd yma wedi bod yn araf ac mae angen cymorth i gasglu gwybodaeth/erthyglau o'r pum cymuned.

[ch] Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd Adroddwyd y dyfarnwyd BEM i Tomos Hughes o Achub Calon y Dyffryn. Cytunwyd i anfon llythyr yn llongyfarch Tomos. Ychwanegodd y Cadeirydd y bwriedir cynnal hyfforddiant ychwanegol ynghylch defnyddio'r diffibrilydd yn Ysgol Pentrecelyn.

509 COFNODION PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2018 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

510 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

510.1 Tai [499.1, 482.4] Siaradwr gwadd o gymdeithas tai Grŵp Cynefin – dim ymateb gan y gymdeithas yn dilyn gwahoddiad i annerch y cyfarfod – y Clerc i wneud rhagor o ymholiadau.

510.2 Plac Coffa i griw'r Awyrlu [497.4] Dywedodd y Clerc ei bod hi yn y broses o gael dyfynbrisiau ar gyfer y ddau opsiwn, hynny yw, plac ar y tir o flaen y Gofeb a phlac ar blinth yn pwyso yn erbyn y wal isel y tu ôl i'r Gofeb. Dylai'r dyfynbrisiau fod mewn llaw erbyn cyfarfod mis Chwefror.

510.3 Binau Sbwriel Cyffredinol [499.3, 431.4] Adroddodd y Clerc bod yr archeb i'w cyflenwi wedi'i phrosesu a byddent yn cael eu gosod yn ystod yr wythnos yn dechrau 8 Ionawr 2019. Ddim wedi ymddangos hyd yma.

510.4 Terfyn cyflymder 30 milltir yr awr ym Mhentrecelyn [499.4, 431.6] Adroddwyd bod yr arwyddion wedi'u gosod yn eu lle gan y contractwr E Jones & Son ddechrau Ionawr 2019.

510.5 Carafan yn Erw Fair [499.5, 495.4, 484.3] Adroddwyd y gofynnwyd i'r Swyddog Gorfodaeth gadarnhau/egluro'r sefyllfa bresennol o ran symud y garafan y tu mewn i gwrtil yr eiddo.

510.6 Band eang [499.6, 496.2] Mynegodd y Cynghorydd Barton ei siom nad oedd wedi clywed gan yr awdurdod lleol / asiantaethau eraill ynghylch ei rôl fel hyrwyddwr band eang; roedd yn bryderus am y broses ymgeisio am grant ac o'r farn y dylai cymdogion fedru dod at ei gilydd i wneud cais am gyllid i wella'r ddarpariaeth.

510.7 Cyffordd yr A525 – Lôn Plas Bedw [431.7] PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc gael diweddariad yn dilyn y cais am ychwanegu gosod arwydd newydd ar y rhaglen waith a ph'un ai y gwnaed penderfyniad ynghylch cael gwared ar y cerrig ymwithiol ar y lôn.

Dyddiad / Cyfeirnod	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda'r bobl ifanc yn yr ardal.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Rhyfel. Y Clerc – gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
431.5	Problemau draenio / llifogydd ym Mhentre Coch Monitro i barhau.

511 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

511.1 Rhaglen Hyfforddiant Un Llais Cymru Ionawr – Mawrth 2019 [neges e-bost dyddiedig 06/12/18] Nodwyd – hyfforddiant yn hanfodol ar gyfer Cynghorwyr newydd.

511.2 Digwyddiadau Rhwydwaith Cymorth Cynllunio Cymru [neges e-bost dyddiedig 20/12/18] Bydd digwyddiad Gorfodaeth Cynllunio yn cael ei gynnal yn Neuadd y Dref Llangollen ar 13/03/19 - www.planningaidwales.org.uk40-years-of-planning-aid-in-wales Mynegodd y Cadeirydd ddi-ddordeb mewn mynd i'r hyfforddiant.

511.3 Diwygiadau i Gyfraith Cynllunio yng Nghymru [neges e-bost dyddiedig 21/12/18] Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys 193 o argymhellion i leihau a symleiddio deddfwriaeth fel ei bod yn addas i'w phwrpas, yn cynnwys diddymu unrhyw ddarnau o ddeddfwriaeth na ddefnyddir mwyach, y rhan fwyaf ohonynt heb eu defnyddio ers 30 mlynedd neu ragor a rhai nad ydynt wedi'u defnyddio erioed. Gobeithir y bydd y diwygiadau a gynigir yn ffurfio mewnbwn allweddol i Fesur Cynllunio (Cymru) newydd i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad yn ystod tymor y cynulliad hwn. <https://lawcom.gov.uk/project/planning-law-in-Wales/>

511.4 Meysydd Gweithredu Llywodraeth Cymru yn dilyn Adolygiad y Sector Cynghorau Tref a Chymuned [neges e-bost dyddiedig 20/12/18] Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn gweithredu mewn nifer o feysydd i gynorthwyo i gefnogi rôl Cynghorau Tref a Chymuned i gyflawni'r canlyniadau a ddeisyfir. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud rôl y sector yn fwy eglur, cynyddu democratiaeth a chyfranogiad, cynyddu capasiti, gwella perthnasoedd a gwella atebolrwydd. Enghreifftiau – gwella'r berthynas rhwng cynghorau tref a chymuned a'r prif gynghorau, gwella mynediad i hyfforddiant craidd i gynghorwyr a chlercod, cefnogi ffurfio trefniadau ar y cyd newydd ar gyfer darparu gwasanaethau trwy roi grantiau, cynnal arolwg i ddeall sut mae Cynghorau yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol a digidil i ymgysylltu gyda chymunedau.

511.5 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd Adroddodd y Cynghorydd Barton ei fod wedi bod mewn sawl cyfarfod yn ddiweddar, yn cynnwys digwyddiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac y byddai'n dosbarthu adroddiadau.

512 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

512.1 Cais 19/2018/1059 Addasiadau ac estyniad i annedd ac adeiladu garej/gweithdy sengl ar wahân yn Nhŷ Canol, Ffordd Tŷ Terfyn, Llanfair. Trafododd yr aelodau'r newidiadau diweddaraf i'r cynnig a chytunwyd i gefnogi'r cynlluniau dyddiedig 08/01/19, fel y'i diwygiwyd. Roedd yr aelodau'n croesawu ychwanegu to pig i'r adeilad.

513 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD**513.1 Damwain car yn Llanfair DC dros y Nadolig/Flwyddyn Newydd**

Adroddwyd bod y Cynghorydd Mouldsdale wedi gwirio nad oedd hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned wedi'i ddifrodi'n wael. Dywedodd y byddai'n rhaid i'r arwydd plastig

gwyn yn dangos cyfeiriad y wefan gael ei adnewyddu. Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch goryrru yn y pentref a gofynnodd Mr Steve Whipp am wirfoddolwyr i'w helpu gyda dyletswyddau monitro cyflymder. Mynegodd aelod bryder nad yw'r llwybr troed y tu allan i Lanfair yn ddigonol a'i bod yn rhy gul. **PENDERFYNWYD** bod y Clerc yn ysgrifennu at y Cyngor Sir yn mynegi pryder am oryrru a gofyn pryd y bydd yr arwydd 20 milltir yr awr wedi'i ddifrodi yn cael ei adnewyddu.

513.2 Camfeydd/Giatiau newydd – Ardal Eyarth Llanfair DC

Adroddodd Mr Steve Whipp fod Cyngor Sir Ddinbych yn gosod camfeydd, giatiau ac arwyddion llwybrau troed newydd yn ardal Eyarth i greu llwybr cymunedol "coed a chreigiau." Cytunodd yr aelodau y byddai hwn yn amwynder rhagorol yn annog pobl i fynd allan, ac yn gwella eu lles. Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd gyda chynllun cymdogaeth y Cyngor Cymuned a nodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd. **PENDERFYNWYD** – anfon llythyr o ddiolch am ddod o hyd i'r adnoddau i hwyluso'r gwaith hwn at y Rheolwr Gwybodaeth Priffyrdd a'r Swyddog Mynediad Cefn Gwlad, gyda chopi at yr Arweinydd.

513.3 Y ffordd o Bentrecoch i'r Silff Mynegodd y Cynghorydd David Baker bryder am gyflwr y ffordd sydd hefyd yn cael ei defnyddio fel llwybr beicio. **PENDERFYNWYD** hysbysu'r Adran Priffyrdd.

RHAN 2 514 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

515 MATERION ARIANNOL

515.1 Cyflwynwyd – Crynodeb Incwm a Gwariant

ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2018 a datganiad cysoniad banc.

Llyfr arian parod	Banc	
Balansau a ddygwyd ymlaen 01-04-18 31552.51	9907.72	Cyfrif cyffredinol 31-12-18
Ychwanegu derbyniadau 1023.94	30114.60	Cyfrif busnes 31-12-18
Llai taliadau 586.13	8032.00	Llai 4 sic heb glirio
Balans a ddygir ymlaen £31990.32	£31990.32	Balans 31-12-18

PENDERFYNWYD Cymeradwyo, yn amodol ar gywiro'r ffigurau amrywiad costau Defnyddio'r Cartref, Rhyngwyd a Chostau Aelodau.

515.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£190.00 Treuliau'r Clerc [08/10/18-14/01/19] dosbarthwyd copi i'r Aelodau
£ 4.05 Cyngor Tref Rhuthun [costau rhannu car y Clerc ar 07/12/18]
£ 24.50 Y Cynghorydd Jayne Mayers – ad-daliad am brynu cerdyn/anrheg - John Pugh

515.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol Cyflwynwyd – atodlen grantiau/cyfraniadau ariannol yn nodi'r arian a roddwyd i fudiadau yn 2017-2018 a 2018-2019. Roedd yr atodlen hefyd yn rhestru'r ceisiadau sy'n aros i gael eu hystyried yn 2018-2019. **PENDERFYNWYD** gwneud taliadau fel a ganlyn:

£ 600	Apêl Llanfair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd] trosglwyddwyd
o		
£ 400	Apêl Pentrecelyn a Graigfechan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd]	gyllideb y
	gofeb	
£ 350	Ysgol Llanfair] trosglwyddwyd o'r gyllideb gweithgareddau'r cynllun
	cymuned	
£ 450	Ysgol Pentrecelyn]
£ 150	Tŷ'r Eos]
£ 150	Hosbis Sant Cyndeyrn] o'r gyllideb grantiau
£ 200	Gwasanaethau Canser Nyrsio Lleol Marie Curie] a chyfraniadau
£ 200	Home-Start Sir Ddinbych]

515.4 Cyllideb Praesept Cyflwynwyd – drafft 2 i'w ystyried. Cadarnhaodd y Clerc bod y cwmni yswiriant yn fodlon derbyn praesent o £30,000. Ni fydd hyn yn cael effaith ar gost yr yswiriant. Yn dilyn trafodaeth a rhagor o addasiadau, **PENDERFYNWYD** pennu'r gyllideb ar gyfer 2019-20 ar £30,000.

515.5 Trwsio wal yr Eglwys Adrododd y Clerc ei bod yn cael peth anhawster cael dyfynbrisiau ychwanegol ar gyfer y gwaith a'i bod wedi gofyn i'r Cyngor Sir am restr o contractwyr cymeradwy. Dim ond tri o'r pump contractwr a gafodd wahoddiad i gyflwyno dyfynbris a oedd wedi ymateb. Yn dilyn ystyried y tri dyfynbris **PENDERFYNWYD** dyfarnu'r contract i D P Williams Building Services am £1990.00.

515.6 Member Allowances 2018-2019 Yn ôl Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol Cymru mae'n rhaid i'r holl gynghorau tref a chymuned wneud taliad blynyddol o £150 ar gael i'w haelodau am eu costau. Mae'r taliad yn orfodol i bob aelod oni bai eu bod yn cynghori'r Clerc yn ysgrifenedig nad ydynt am dderbyn y taliad. Gan fod y lwfans hwn yn drethadwy mae'n rhaid ei brosesu trwy'r system gyflogres. Cadarnhaodd y Clerc bod yr holl ffurflenni angenrheidiol wedi'u hanfod an y Cynghorwyr i'w llenwi a'u llofnodi ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Gwneir y taliad nesaf ar ddechrau'r flwyddyn ddinesig 2019-20. Mae'n ofynnol i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi manylion yr holl daliadau i aelodau unigol mewn Datganiad Taliadau blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon ar hysbysfyrdau a/neu wefan y cyngor [gyda mynediad rhwydd] a'i anfon at y Panel trwy e-bost neu trwy'r post erbyn dim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.

515.7 Graddfa Gyflog newydd ar gyfer Clercod o 1 Ebrill 2019

PENDERFYNWYD cynyddu cyflog y Clerc o £12.01 i £12.39 yr awr [Pwynt 25 wedi'i newid i'r hicyn cyflog newydd 17] yn weithredol o 1 Ebrill 2019 yn unol â chytundeb y Cyd-bwyllgor Cenedlaethol. Oriau'r Clerc i barhau yn 28 awr y mis, a'r archeb sefydlog i'r darparydd cyflogres i'w newid yn unol â hyn. Awgrymodd y Cynghorydd Barton symud cyfarfod arfarnu'r Clerc gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ymlaen rhag ofn bod angen ystyried materion eraill cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

516 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2019 - 11 Chwefror [Genus], 11 Mawrth [Genus]

Cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 8.30pm.

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfair nos Lun, 11 Chwefror am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cyngorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], David Baker [Is-gadeirydd], Bob Barton, Moira Edwards, Tim Faire, Keith Mouldsdale, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - dau aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU Y Cyngorwyr Wini Davies [perthynas yn yr ysbyty] a Ceri Ranson [ymrwymiad blaenorol]

RHAN 1

517 DATGAN BUDDIANNAU Y Cyngorwyr Keith Mouldsdale fel ymddiriedolwr Neuadd Eleanor a'r Cyngorwyr David Baker fel aelod o Gyngor Eglwys Llanfair.

518 MATERION CYMUNEDOL

518.1 Safle'r hen ysgol / Ysgol Llanfair newydd Mynegodd yr aelodau'n byw yn Llanfair bryder am ddŵr yn casglu mewn pyllau o gwmpas y safle, ond nodwyd bod y contractwr wedi gwneud trefniadau ar gyfer draenio.

518.2 Nwy prif gyflenwad Mae gwefan cwmni datblygu Pure yn datgan y bydd y gwaith o adeiladu'r datblygiad tai newydd yn dechrau'n fuan.

518.3

[a] Canlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb Dim diweddariad.

[b] Cynllun Cymunedol Ni threfnwyd dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf yr is-grŵp cynllun cymunedol hyd yma.

[c] Cylchlythyr Cyflwynodd y Cyngorwyr Keith Mouldsdale gopi o rifyn cyntaf y cyhoeddiad sy'n cwmpasu pum pentref; bu'n brysur yn gwneud trefniadau i agor cyfrif banc, cael gwirfoddolwyr i ddsbarthu'r cylchlythyr a denu erthyglau. Teimlwyd bod hyn yn gyfle i'r tri Cyngor Cymuned, Llanfair, Efenechtyd a Llanelidan, gyflwyno erthyglau i gynyddu ymwybyddiaeth am weithgareddau pob ardal. Croesewir erthyglau dwyieithog.

519 COFNODION PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

520 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

520.1 Tai [510.1, 499.1, 482.4] Siaradwr gwadd o gymdeithas tai Grŵp Cynefin – bydd cynrychiolydd o'r gymdeithas dai yn dod i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 11 Mawrth 2019.

520.2 Biniau Sbwriel Cyffredinol [510.3, 499.3, 431.4] Adroddodd y Clerc bod y biniau wedi'u cyflenwi a'u gosod, ac eithrio un ym Mharc y Llan, Llanfair DC. Roedd un o'r trigolion wedi cwyno am y lleoliad ac nid oedd yn dymuno ei weld ar y gylchfan

nac unrhyw le'n agos at Barc y Llan. Dywedodd yr aelodau lleol nad oedd gan fwyafrif y trigolion unrhyw wrthwynebiadau. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Cyngor Sir osod y bin sbwriel ar y gylchfan ym Mharc y Llan fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

Cyfeirnod/ Dyddiad	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cyngorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cyngorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda phobl ifanc.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Rhyfel. Y Clerc – gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.
431.5 16/04/18	Problemau draenio / llifogydd ym Mhentre Coch Monitro i barhau.

521 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

521.1 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Rheolaeth Ariannol a

Llywodraethu – Cyngorau Tref a Chymuned 2017-18 [e-bost dyddiedig 23/01/19] Nodwyd nad yw nifer arwyddocaol o Gynghorau'n deall eu cyfrifoldebau statudol o ran paratoi cyfrifon, sicrhau trefniadau priodol ar gyfer archwilio statudol ac archwilio'r cyfrifon gan eu hetholwyr. Cafodd 340 o'r 735 o Gynghorau yng Nghymru farn amodol gan yr archwilydd a chyflwynwyd argymhellion ysgrifenedig i wyth Cyngor yng Nghymru. Bydd archwiliadau Cyngorau Tref a Chymuned yn 2018-19 a 2019-20 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae'r archwilwyr yn gweld lle i wella o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau archwilio i sicrhau eu bod yn addas i'w pwrpas.

521.2 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Trefniadau Archwilio Mewnol Cyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru

[e-bost dyddiedig 23/01/19] Nodwyd bod 113 o Gynghorau [yn cynnwys Llanfair DC] yn y sampl ynghylch eu trefniadau archwilio mewnol ym mis Awst 2018. Daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad [a] nad oedd yn medru penderfynu a oedd trefniadau archwilio mewnol yn bodoli ar gyfer 1 o bob 10 Cyngor [b] nid yw archwilydd mewnol 1 o bob 5 Cyngor yn ddigon annibynnol [c] mae gan ddau draean gylch gorchwyl annigonol o ran yr archwilydd mewnol [ch] roedd casgliadau archwilio mewnol yn anghywir ar gyfer 1 o bob 3 Cyngor [d] mae anghysondeb yn y broses adroddiad blynyddol archwilio mewnol [dd] nid yw'r rhan fwyaf o Gynghorau'n dogfennu'n ffurfiol sut maent yn ymdrin ag argymhellion archwilio mewnol ac [e] roedd traean yr archwilwyr mewnol a gafodd eu cyfweld yn teimlo y byddai profion ychwanegol a chanllawiau codi ffioedd yn fuddiol.

Diolchodd yr aelodau i'r Clerc am ei gwaith trwyadl yn sicrhau bod y Cyngor wedi derbyn barn archwilio ddiamod ar gyfer 2017-18.

PENDERFYNWYD Bod yr aelodau'n nodi cynnwys y ddau adroddiad a bod angen hyfforddiant ychwanegol ar frys i gefnogi gwelliannau ar draws y sector. Mae potensial i gynghorau cymuned cyfagos gynnal sesiynau hyfforddiant ar sail rhannu

costau mewn cydweithrediad gydag Un Llais Cymru. Bwriedir gwneud rhagor o ymholiadau.

521.3 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2018-2033 Adroddodd y Cynghorydd Bob Barton ei fod wedi bod mewn sesiwn galw heibio yn Neuadd y Sir, Rhuthun, ar 5 Chwefror 2019. Mae angen mewnbwn ynghylch y pum dewis twf a'r tri dewis gofodol a pha rai y dylid eu dewis i ffurfio'r Strategaeth a Ffeirir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol cyn-adneuo. Unwaith y cytunir ar y Strategaeth a Ffeirir, bydd y Cynllun Datblygu Lleol cyn-adneuo yn cael ei gynhyrchu a gofyn am gymeradwyaeth i fwrw ymlaen i ymgynghori gyda'r cyhoedd. Dywedodd y Cynghorydd Barton nad oedd yn teimlo ei fod mewn sefyllfa i wneud awgrymiadau yng nghyfarfod y Cyngor oherwydd y byr rybudd a'r swm sylweddol o wybodaeth a rannwyd yn y sesiwn galw heibio.

PENDERFYNWYD Bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Gynllunio i fynegi pryderon aelodau am y trefniadau i ymgynghori ar y broses; nid oedd yr hysbysiad a anfonwyd ar 25 Ionawr i wahodd pobl i'r sesiynau galw heibio yn darparu digon o amser paratol i gynghorau tref a chymuned ystyried y dewisiadau a gynigiwyd yn llawn erbyn canol yr wythnos ganlynol; ac mae llawer o'r cynghorau llai yn cyfarofd bob deufis yn unig. Dylid ystyried hyn wrth gynllunio sesiynau eraill ynghylch datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

522 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

Cais Cynllunio 20/2019/0068 Adeiladu porth wedi'i orchuddio i du cefn annwedd sy'n bodoli eisoes – Bryn, Llanfair DC

PENDERFYNWYD Cefnogi'r cais.

523 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

Gwnaeth yr aelodau ystyried y diweddariadau a ganlyn:

523.1 Cyffordd yr A525 – Lôn Plas Bedw [510.7, 431.7] Dywedodd y Clerc bod darparu arwydd newydd yn rhybuddio am y gyffordd yn parhau ar raglen waith Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, ond oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb bydd y gwaith yn digwydd yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 yn awr. Bwriedir gofyn i'r adran Strydlun gadarnhau a oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno mesurau adfer o ran y cerrig ymwithiol ar Lôn Plas Bedw. **PENDERFYNWYD** gofyn am sicrwydd gan yr adran Priffyrdd y bydd yr arwydd newydd ynghylch y gyffordd yn cael ei osod yn fuan ym mlwyddyn ariannol 2019/20.

523.2 Damwain car yn Llanfair DC / Arwydd 20 milltir yr awr [513.1] Gofynnwyd i Jon Chapman o'r adran Strydlun ddarparu diweddariad pryd y bydd yr arwydd yn cael ei adnewyddu. Nodwyd bod cerbyd Gan Bwyll wedi'i weld yn yr ardal leol.

523.3 Y ffordd o Bentrecoch i'r Silff [513.3] Cyflwynwyd cais i Tim Towers gadarnhau a oes unrhyw gynigion i gyflawni unrhyw welliannau i wyneb y ffordd.

PENDERFYNWYD HEFYD monitro'r cynnydd o ran y materion Priffyrdd uchod yn ofalus, a'r Clerc i weithredu camau dilynol fel bo angen.

RHAN 2 524 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

525 SEDD WAG Cafodd trydydd ymgeisydd ei gyfweld [roedd dau ymgeisydd arall wedi dod i gyfarfod blaenorol y Cyngor, a'r cais wedi'i dynnu'n ôl gan un ohonynt]. Yn dilyn pleidlais **PENDERFYNWYD** penodi Mr Osian Owen i lenwi'r sedd wag.

526 MATERION ARIANNOL

526.1 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn: £910.00 D P Williams Building Services [£380 am waith trwsio to cysgodfan bws Graigfechan a £530 am ffenestr newydd ac ailosod hysbysfwrdd y tu mewn i'r gysgodfan] [Wedi'i drosglwyddo o'r gyllideb Cofeb Rhyfel] £409.50 Sandra Williams am wasanaethau cyfeithu.

526.2 Ceisiadau am Gymorth Ariannol

[a] Eisteddfod Gydwladol Llangollen [b] Gofal Canser Tenovus [c] Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru **PENDERFYNWYD** Nododd yr aelodau, gan fod gormod o geisiadau ar gyfer cyllideb grantiau 2018-19, y dylai'r ceisiadau hyn aros ar y ffeil ar hyn o bryd.

526.3 Dyfynbrisiau am osod plac i gofio aelodau'r Awyrlu

Derbyniwyd tri dyfynbris fel a ganlyn:

[a] Mossfords Memorials Ltd Wrexham - £1372.00 + TAW

[b] Simon Winter Stone Carving - £750.00

[c] Ruthin Memorials – £1800.00

Yn dilyn trafodaeth fanwl **PENDERFYNWYD** [a] na ddylai cost y plac coffa ddod o gyllideb praesept y Cyngor; os yw'r prosiect i'w wireddu yna bydd rhaid codi arian o ffynonellau eraill neu gyfraniadau preifat a [b] y Clerc i ysgrifennu at Mr E H Edwards i'w hysbysu am benderfyniad y Cyngor, a'i wahodd i gynorthwyo gyda chodi arian.

526.4 Penodi Archwilydd Mewnol Cyflwynwyd copi o gynllun archwilio 2018/19, y rhestr wirio a'r ffi arfaethedig o £127.50 + TAW gan JDH Business Services Ltd.

PENDERFYNWYD [a] penodi JDH Business Services Ltd fel Archwilydd Mewnol y Cyngor a [b] gwneud trefniadau i adolygu Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn y cyfarfod ar 11 Mawrth 2019 i sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda'r Rheolau Sefydlog.

527 ARFARNIAD Y CLERC Cyflwynodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd adroddiad ar lafar am y broses a'r canlyniadau. Ystyrir y Clerc yn aelod staff gwerthfawr y Cyngor Cymuned a'i bod wedi mwy na chyrraedd y disgwyliadau a'i bod yn cyflawni rôl hanfodol yn sicrhau cynnal y Cyngor yn llyfn. Cyfeiriwyd at fwriad y Clerc i fod yn absennol rhwng 6 Ionawr a 24 Mawrth 2020 – bydd trefniadau dros dro yn cael eu llunio.

528 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

528.1 Cyfarfod nesaf - 11 Mawrth 2019 [Genus], dechrau am 7pm.

528.2 Dyddiadau'r cyfarfodydd yn ystod blwyddyn ddinesig 2019-20

PENDERFYNWYD cadarnhau 2il ddydd Llun bob mis.

Cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi gorffen am 8.30pm

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, nos Lun, 11 Mawrth 2019 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], David Baker [Is-gadeirydd], Bob Barton, Wini Davies, Tim Faire, Osian Owen, Ceri Ranson ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – Un aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorwyr Moira Edwards [apwyntiad ysbyty], Keith Mouldsdaie [gwyliau] a Paul Weston [ymrwymiad blaenorol]

RHAN 1

529 [a] DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd David Baker fel aelod o Gyngor Eglwys Llanfair a'r Cynghorydd Tim Faire yng nghyswllt cais cynllunio 20/2019/0105 fel yr ymgeisydd. **[b] DERBYN SWYDD** Croesawyd y Cynghorydd Osian Owen i'w gyfarfod Cyngor cyntaf. Cadarnhawyd ei fod wedi llofnodi'r ffurflen Derbyn y Swydd a'r ffurflen Hysbysiad Buddiannau.

530 MATERION CYMUNEDOL

530.1 Safle'r hen ysgol / Ysgol Llanfair newydd Mae Rheolwr Asedau Cyngor Sir Ddinbych wedi derbyn cadarnhad gan yr holl wasanaethau eraill yn yr Awdurdod nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd ar gyfer y safle, ond mae Addysg yn parhau i ystyried defnydd posibl unwaith y bydd yr ysgol gynradd wedi adleoli i'w lleoliad newydd. Hysbysir y Cyngor Cymuned gynted ag y bo penderfyniad wedi'i wneud gan yr Adran Addysg.

530.2 Nwy prif gyflenwad Dim diweddariad.

530.3

[a] Canlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb Dim diweddariad

[b] Cynllun Cymunedol Ni threfnwyd dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf yr is-grŵp cynllun cymunedol hyd yma. Gofynnwyd i'r Clerc anfon neges i atgoffa Mr Steve Whipp. Roedd pwysigrwydd datblygu cynllun cymunedol gan Gynghorau Cymuned llai wedi'i bwysleisio mewn cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol Un Llais Cymru yn ddiweddar.

[c] Cylchlythyr Cynhyrchwyd y rhifyn cyntaf. Mae'r Cynghorydd Keith Mouldsdaie ar ei wyliau tan ddiwedd mis Mawrth.

531 COFNODION PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

532 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU **532.1 Housing [520.1, 510.1, 499.1, 482.4]** Siaradwr gwadd – Pennaeth Gwasanaethau Tai, Grŵp Cynefin. Nid yw'r Gymdeithas Dai, ymddiriedolwyr Elusen Elizabeth Owen, yn

berchnogion tai ond maent yn gyfrifol am gynnal a chadw'r rhes o eiddo yn Llanfair. Fodd bynnag, mae'r elusen wedi'i chofrestru gyda Homes England sy'n ei gwneud yn anodd denu cymorth Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a grantiau Trydydd Sector eraill. Mae Grŵp Cynefin yn gwneud ymholiadau i weld a oes modd trosglwyddo'r eiddo fel y gellir cael grantiau trwy Lywodraeth Cymru. Mynegodd y Cynghorwyr eu pryderon am gyflwr y tai a'r angen i sicrhau bod eiddo gwag yn cael eu defnyddio. Mae'r Gymdeithas yn y broses o drafod dewisiadau i'r dyfodol gyda'r preswylwyr, a bydd yn hysbysu'r Cyngor am y cynnydd gyda hwn trwy gyfrwng y Clerc. Hefyd crybwyllwyd y posibilrwydd o gael cyllid fferm wynt ac estyn gwahoddiad i Darren Millar, AC ac Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych ar ymweliad safle unwaith y bo'r Gymdeithas wedi derbyn ymateb gan Homes England.

532.2 Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru [521.1, 521.2] Gweithredu dilynol ynghylch anghenion hyfforddiant Hysbyswyd bod [a] Cyngor Cymuned Llanbedr DC yn cynnal sesiwn hyfforddiant wedi'i theilwra i'r Cyngor [mewn cydweithrediad gydag Un Llais Cymru] i'w chynnal ar 4 Ebrill 2019, 6.30-9 pm, yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd a [b] mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu peidio â gwahodd tendrau ar gyfer archwiliadau allanol ar ôl 2020. **PENDERFYNWYD** gwneud trefniadau i drefnu 5 lle yn y sesiwn hyfforddiant [4 Cynghorydd Cymuned Llanfair a'r Clerc].

532.3 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2018-2033 [521.3] Adroddodd y Clerc y derbyniwyd ateb gan Gyngor Sir Ddinbych yn datgan nad oedd y sesiynau galw heibio a gynhaliwyd ddechrau Chwefror yn ffurfio rhan o'r ymgynghori ffurfiol ar y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd ymgynghori ffurfiol ar y Strategaeth a Ffebrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a bydd yn parhau am isafswm o wyth wythnos. Bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn derbyn hysysiad ymlaen llaw ynghylch pryd y cynhelir hyn. Y bwriad trwy roi copïau o'r dewisiadau ar y cam cynnar hwn oedd y byddai'n galluogi Cynghorau i wneud sylwadau gwybodus yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Cyfeirnod/ Dyddiad	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdaile a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda phobl ifanc.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Rhyfel. Y Clerc – gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant tuag at gostau'r gwaith trwsio terfynol yn parhau, fel bo amser yn caniatáu.

533 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU 533.1 Plac Coffa Cyflwynwyd – gohebiaeth dyddiedig 13 a 19 Chwefror. Roedd y llythyr dyddiedig 19 Chwefror yn gwrthwynebu penderfyniad y Cyngor i beidio â bwrw ymlaen gyda chomisiynu plac coffa gan ddefnyddio'r gyllideb praesept [cofnod rhif 526.3].

PENDERFYNWYD cyfeirio awdur y llythyr at y Cynghorydd Bob Barton.

533.2 Seremoni Arferion Arloesol/Gwobrau Blynyddol Un Llais Cymru ar 28/03/19 Neges e-bost dyddiedig 28/02/19. Cymeradwyodd yr aelodau bod y Cyngor yn rhannu'r gost o £55.00 i'r Cynghorydd Barton fynd i'r digwyddiad gyda'r tri Chyngor Cymuned arall y mae'n aelod ohonynt. Bydd Cyngor Cymuned Llanbedr yn trefnu lle yn y digwyddiad ar ei ran.

533.3 Dim Gwastraff Niwclear dan ddaear yng Nghymru Cyflwynwyd – neges e-bost dyddiedig 05/03/19 gan Jill Evans Aelod Seneddol Ewropeaidd yn gofyn i'r Cyngor gytuno ar gynnig yn datgan na fydd yn gwirfoddoli i gael man claddu gwastraff niwclear dan ddaear yn y gymuned. **PENDERFYNWYD** bod yr aelodau'n cefnogi'r cynnig.

533.4 Cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Ceisiadau Cyngorau Tref a Chymuned Neges e-bost dyddiedig 20/02/19 ynghylch cefnogaeth i sefydlu trefniadau ar y cyd o ran tair thema craidd, sef ymgysylltu cymunedol, cynyddu cyfranogiad dinasyddion a ymwneud â democratiaeth leol a gweithio ar y cyd ar wasanaethau ar y cyd, yn cynnwys ymchwilio i'r sgôp i rannu'r swyddogaethau 'swyddfa gefn'. Dyddiad cau 12/04/19. **PENDERFYNWYD** y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Chyngorau Cymuned Efenechtyd a Llanelidan gyda'r bwriad o ystyried y posibilrwydd o lunio cynnig ar y cyd. Er enghraifft, cais i gefnogi'r prosiect cylchlythyr ar gyfer pum pentref sy'n cael ei arwain gan y Cynghorydd Keith Mouldsdaie.

533.5 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd Ymdriniwyd â'r diweddariadau dan benawdau eraill.

534 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

534.1 Cais Cynllunio 20/2019/0105 Cynnig ar gyfer darparu ystafell wely ychwanegol ar y llawr gwaeld a gyflwynwyd yng nghyswllt cais rhif 20/2018/0587/PF – Plas Bedw, Pentrecelyn.

534.2 Cais Cynllunio 20/2019/0162 Adeiladu estyniadau ar ochr a thu ôl yr eiddo, gyda gwaith cysylltiedig – Bryn Teg, Graigfechan.

534.3 Cais Cynllunio 20/2019/0174 Gwaith ar goed yn Ardal Gadwraeth Llanfair DC Conservation Area – Eglwys Sant Cynfarch a'r Santes Fair.

PENDERFYNWYD Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r tri chais uchod ac roedd yr aelodau'n llwyr gefnogol i'r cynigion arfaethedig.

534.4 Diweddariad ynghylch cydymffurfio gyda Amod 5 – Cais 20/2016/1137/PF Datblygiad tai arfaethedig yn Llanfair DC. Disgwylir rhagor o wybodaeth gan yr adran Gynllunio.

535 PRIFYRDD A'R AMGYLCHEDD

Gwnaeth yr aelodau ystyried y diweddariadau a ganlyn:

535.1 Cyffordd yr A525 – Lôn Plas Bedw [523.1, 510.7, 431.7] Dywedodd y Clerc bod darparu arwydd newydd yn rhybuddio am y gyffordd yn parhau ar flaen raglen waith adran Prifffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2019-2020 ond nid chafodd ei drefnu'n ffurfiol eto. Ar hyn o bryd gall yr adran Prifffyrdd gadarnhau y bydd y gwaith

yn digwydd yn ystod y chwarter cyntaf. Parheir i aros am gadarnhad ynghylch mesurau adfer o ran y cerrig ymwithiol ar Lôn Plas Bedw. **PENDERFYNWYD** y dylai'r Clerc gysylltu i atgoffa'r adran Priffyrdd am hyn.

535.2 Damwain car yn Llanfair DC / Arwydd 20 milltir yr awr [523.2, 513.1]

Gofynnwyd i Jon Chapman o'r adran Strydlun ddarparu diweddariad pryd y bydd yr arwydd yn cael ei adnewyddu. Nodwyd bod cerbyd Gan Bwyll wedi'i weld yn yr ardal leol nifer o weithiau'n ddiweddar.

535.3 Y ffordd o Bentrecoch i'r Silff [523.3, 513.3] Rydym yn disgwyl am ateb gan Tim Towers i gadarnhau a oes unrhyw gynigion i gyflawni unrhyw welliannau i wyneb y ffordd. Hysbyswyd bod peth gwaith trwsio wedi ei gyflawni yn y cyfamser.

535.4 Gwaith trwsio ffyrdd [502.1] [o'r Smithy Graigfechan, Fferm Tŷ Coch a Fferm Pen y Bryn] Adroddwyd bod y gwlliau wedi'u glanhau a'r tyllau gwaethaf wedi'u llenwi gyda tharmac oer. Mae'r Arweinydd yn trafod gyda'r swyddogion ynghylch pryd y bydd gwaith gwell yn cael ei wneud ar y ffordd hon. Mae'n anhapus gan ei bod yn ymddangos nas rhagwelir gwneud hyn tan flwyddyn ariannol 2020.

535.5 Gwagleoedd Agored Yn dilyn trafodaeth am feysydd chwarae **PENDERFYNWYD** y bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda'r awdurdod lleol i ganfod p'un ai yw'n berchen ar dir yng Nghraigfechan ger yr ardal chwarel yn Nhanyronnen.

535.6 Problemau draenio/llifogydd ym Mhentre Coch [431.5] Adroddwyd bod peth llifogydd yn parhau ym Mhentre Coch a bod gwlliau wedi blocio wrth Minafon. **PENDERFYNWYD** bod y Clerc yn anfon llythyr i'r adran Priffyrdd gyda chopi i Arweinydd y Cyngor.

RHAN 2 536 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

537 MATERION ARIANNOL

537.1 Lwfansau Aelodau PENDERFYNWYD [a] gwneud taliad interim o £500 i'r Cadeirydd ar gyfer 2018/19 [ffi cyflogres £6.25] a [b] rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ynghylch defnyddio unrhyw warged yn y gyllideb Lwfansau Aelodau.

537.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£160.00 Tâl aelodaeth Un Llais Cymru

£1,830.00 Cyngor Sir Ddinbych am brynu a gosod pedwar bin sbwriel [negodwyd y pris heb gystadleuaeth gan fod Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno i osod y biniau mewn lleoliadau addas ac ni fyddent yn codi tâl am eu gwagu].

£309.48 Treuliau'r Clerc [dosbarthwyd copi i'r Aelodau]

£216.00 Lwfans di-dreth gweithio o gartref y Clerc am y flwyddyn [cynnydd o £8 y flwyddyn yn weithredol o 01/04/19]

£127.53 AVOW [balans yn ddyledus o ran cyflog y Clerc]

£650.00 AVOW am dalu Lwfansau Aelodau gorfodol 2018-19 [yn cynnwys ffioedd cyflogres a ffurflenni P60 a P11]

£362.58 Sandra Williams am wasanaethau cyfieithu [tybir bod y siec rhif 101012 gwreiddiol wedi mynd ar goll yn y post]. Y Clerc i wneud ymholiadau a ellid hawlio iawndal gan y Post Brenhinol.

537.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol [a] Elusen Ambiwlans Awyr Cymru [b] Capel Pentrecelyn [c] Eisteddfod yr Urdd 2020 a [ch] Capel Ebeneser, Graigfechan
PENDERFYNWYD Nododd yr aelodau, gan fod gormod o geisiadau ar gyfer cyllideb grantiau 2018-19 y dylai'r ceisiadau hyn aros ar y ffeil ar hyn o bryd.

537.4 Adolygu Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cyflwynwyd – copi o'r rheoliadau cyfredol, paragraffau 10 ac 11 o reoliadau ariannol enghreifftiol Un Llais Cymru a chopi o Reolau Sefydlog cyfredol y Cyngor.

PENDERFYNWYD amnewid paragraffau 10 Archebion Gwaith, Nwyddau a Gwasanaethau ac 11 Contractau yn Rheoliadau Ariannol y Cyngor gyda pharagraffau 10 ac 11 o reoliadau ariannol enghreifftiol Un Llais Cymru, yn ddarostyngedig i ychwanegu [a] 'e-bost' at baragraff 10.1 [b] 'yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor Cymuned' i linell gyntaf paragraff 11.1 [c] ffigur o £1,000 i baragraff 11.1 g [bydd y Clerc neu'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ceisio cael tri amcanbris os bydd y swm yn uwch na hyn].

538 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2019 08/04/19, 13/05/19, 10/06/19, 08/07/19, 09/09/19, 14/10/19, 11/11/19, 09/12/19
2020 13/01/19, 09/03/19

Gorffennodd y cyfarfod am 8.55 pm

_____ CADEIRYDD
_____ DYDDIAD